

Gofyn a Gweithredu
Ask and Act



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithredu "Gofyn a Gweithredu"

**Canllawiau i arweinwyr,
cydgysylltwyr a rheolwyr
mewn awdurdodau perthnasol**

Mae'r ddogfen hon wedi'i darparu fel drafft gweithio er mwyn asesu ei phriodoldeb. Ar ôl penderfynu ar ei ffurf derfynol, bwriedir ei chyhoeddi fel canllaw statudol o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ar ôl ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyntaf yn unol ag adran 16 o'r Ddeddf.

Er mai 'drafft gweithio' yw'r ddogfen hon, gobeithir y bydd yn helpu'r awdurdodau perthnasol hynny sy'n cymryd rhan yn yr ail gam cyflwyno i gynllunio a gweithredu Gofyn a Gweithredu.

Nodyn am iaith

Mae “Gofyn a Gweithredu” yn bolisi a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sy’n cael ei roi ar waith drwy ganllawiau, ariannu a hyfforddiant. Mae elfen hyfforddi’r polisi yn cael ei chyflawni drwy grwpiau 2 a 3 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae’r Polisi Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ymdrin â phob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, mae enw’r Fframwaith wedi’i bennu er mwyn sicrhau, wrth roi’r polisi ar waith, ei fod yn canolbwyntio ar fathau penodol o drais a cham-drin sy’n cael eu profi’n amlach ar gyfartaledd gan fenywod a genethod. Mae tystiolaeth yn dangos bod menywod ar gyfartaledd yn profi mwy o achosion o gam-drin domestig mynych, pob math o drais rhywiol a mathau eraill o drais a cham-drin fel priodas dan orfod ac FGM.

Er ei bod yn bwysig cydnabod a rhoi gwybod am natur anghymesur y profiad hwn drwy ddarparu hyfforddiant, gan gynnwys yr hyfforddiant ar y broses “Gofyn a Gweithredu”, pwrpas y Fframwaith yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i ymateb yn effeithiol i unrhyw un sy’n profi effaith o unrhyw fath o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Felly, dylai cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at “drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol” neu “drais a cham-drin” gael eu darllen fel eu bod yn cwmpasu pob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y maent wedi’u diffinio yn adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Bydd rhai mathau o drais a cham-drin sy’n cwrdd â’r diffiniadau hyn yn cael eu profi o fewn lleoliadau a pherthnasoedd teuluol, gan gynnwys perthnasoedd rhwng dau o’r un rhyw, rhwng aelodau o deuluoedd a chan ddynion sy’n cael eu cam-drin gan fenywod. Felly, mae’r hyfforddiant ar gyfer pob grŵp yn y Fframwaith, gan gynnwys yr hyfforddiant ar y broses “Gofyn a Gweithredu”, yn cydnabod effaith anghymesur y mathau hyn o drais a cham-drin ar fenywod ond bydd yn cynnwys yr holl ddiodefwyr posibl.

Mae’r hyfforddiant ar y broses “Gofyn a Gweithredu” yn cydnabod bod profiad dynion a menywod o’r mathau hyn o drais a cham-drin yn gallu bod yn wahanol ac yn galw’n aml am ymateb gwahanol sy’n ystyriol o’r gwahaniaethau hyn gan weithwyr proffesiynol. Fel y mae’r canllawiau hyn yn egluro, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion penodol pob cleient, boed y rheini’n gysylltiedig â rhywedd neu nodweddion eraill, wrth ddarparu opsiynau priodol drwy wasanaethau.

Cynnwys

Adran	Tudalen
Cyflwyniad	4
“Gofyn a Gweithredu” yng nghyd-destun y DU a’r cyd-destun rhyngwladol	7
Nodau “Gofyn a Gweithredu”	8
Pedwar cam gweithredu “Gofyn a Gweithredu”	9
1. Sefydlu’r dull llywodraethu	10
2. Cynllunio	12
3. Hyfforddi	29
4. Cyflwyno	32
Rheoli effaith “Gofyn a Gweithredu” ar y gweithlu	39
Diffiniadau	44
Cyfeiriadau	46

Cyflwyniad

Mae “Gofyn a Gweithredu” yn bolisi a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer holi wedi’i dargedu, i’w arfer ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae’r term holi wedi’i dargedu yn disgrifio’r broses o adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn ysgogi’r gweithiwr proffesiynol i ofyn i’w gleient a yw wedi profi effaith o unrhyw un o’r problemau hyn. Nid yw hyn yn golygu’r un peth â holi cyffredinol, lle mae pob cleient yn cael ei sgrinio am y posibilrwydd ei fod wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae’r canllawiau hyn wedi’u bwriadu ar gyfer y rheini sy’n gyfrifol am faterion sy’n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn yr awdurdodau perthnasol sydd wedi’u nodi yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015). Y rhain yw awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Y rheswm am hyn yw bod rhaglen hyfforddi Llywodraeth Cymru ar gyfer “Gofyn a Gweithredu” yn cael ei darparu i’r sefydliadau hyn.

Fodd bynnag, bydd y canllawiau hyn yn ddefnyddiol hefyd i’r rheini sy’n chwarae rhan ar lefel ranbarthol mewn cydgysylltu a chomisiynu gweithgareddau i ddelio â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i arweinyddwyr sefydliadau (nad ydynt yn awdurdodau perthnasol) sy’n bwriadu mabwysiadu “Gofyn a Gweithredu”. Bydd y canllawiau hyn yn helpu’r rheini sydd â chyfrifoldebau arwain yn y sefydliadau hynny i gynllunio, paratoi a gweithredu’r broses “Gofyn a Gweithredu” mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd awdurdodau perthnasol yn cael cymorth i “Ofyn a Gweithredu” yn y ffordd canlynol:

- drwy’r canllawiau hyn, sy’n amlinellu’r camau y bydd angen eu cymryd i roi “Gofyn a Gweithredu” ar waith;
- drwy ganllawiau ychwanegol i ymarferwyr rheng flaen;
- rhaglen Hyfforddi’r Hyfforddwyr a fydd yn sicrhau bod ganddynt staff yn eu sefydliadau a’u rhanbarthau sy’n gallu hyfforddi cydweithwyr i “Ofyn a Gweithredu” a chynllunio eu hyfforddiant eu hunain;
- rhaglen grantiau bach i gael cymorth gan arbenigwyr ar y rhaglen hyfforddi lle bo angen.

Mae’r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth am y pedwar cam a fydd yn sicrhau bod “Gofyn a Gweithredu” yn cael ei roi ar waith gyda seilwaith cadarn, rolau a chyfrifoldebau sydd wedi’u diffinio’n glir, hyfforddiant, cymorth a dull llywodraethu cadarn. Mae pennod am bob un o’r camau sy’n darparu gwybodaeth am arfer da a chyingor ymarferol.

- 1) Cam 1: Sefydlu’r dull llywodraethu
- 2) Cam 2: Cynllunio, gan gynnwys y cyfnod cyn-hyfforddi

- 3) Cam 3: Hyfforddi
- 4) Cam 4: Cyflwyno

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi sylw i'r gwersi a ddysgwyd ar ôl mabwysiadu'r broses "Gofyn a Gweithredu" yn gynnar i'w threialu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac awdurdodau rhanbarthol De-ddwyrain Cymru. Maent hefyd yn rhoi sylw i adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol a gynhaliwyd ar ddechrau 2016.

Mae'r canllawiau wedi'u seilio ar y rhagdybiaeth y bydd yr elfennau canlynol ar waith:

Dull rhanbarthol/partneriaeth

Mae Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn cael eu hannog i weithio mewn partneriaeth, o fewn terfynau rhanbarthol sy'n hwylus iddynt (ac yn gyson â'r gwaith rhanbarthol sydd ei angen i rannu'r grant Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) er mwyn rhoi "Gofyn a Gweithredu" ar waith.

Dylai pob awdurdod perthnasol ystyried yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau bod "Gofyn a Gweithredu" yn llwyddo drwy ei systemau mewnol. Fodd bynnag, bydd angen sefydlu partneriaethau rhanbarthol er mwyn darparu hyfforddiant – ni fydd yn gosteffeithiol i sefydliadau weithredu'r model hyfforddi ar eu pen eu hunain.

Bydd Awdurdodau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaethau GIG yn gallu gweithredu ar lefel sefydliadol ond dylid gwneud hyn ar sail genedlaethol (h.y. dylai'r holl Awdurdodau Tân ac Achub ddod at ei gilydd i dderbyn hyfforddiant).

Mae cyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yn galw am newid sefydliadol yn ogystal â darparu'r rhaglen hyfforddi

Yn ystod y cyfnod mabwysiadu cynnar ar gyfer "Gofyn a Gweithredu", roedd nifer o gyfranogwyr wedi edrych ar "Gofyn a Gweithredu" fel rhaglen hyfforddi ar wahân. Mae'n bwysig ymdrin â "Gofyn a Gweithredu" fel **newid sefydliadol – wedi'i ategu gan raglen hyfforddi**, er mwyn sicrhau bod seilwaith polisi a gweithdrefnau'n cael ei osod sy'n ymgorffori "Gofyn a Gweithredu" fel busnes craidd. Dylai hyn ei gwneud yn glir i'r holl staff, rheolwyr a chleientiaid sut mae'r broses yn gweithio, beth mae'n ei olygu i bawb sy'n gysylltiedig a sut y bydd staff a chleientiaid yn cael eu cynorthwyo.

Mae "Gofyn a Gweithredu" yn cynnwys hyfforddiant canolog a lleol

Mae cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr wedi'i ddatblygu ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" a bydd yn cael ei darparu ar ran Llywodraeth Cymru gan Gymorth i Ferched Cymru. Bydd yr un cwrs (wedi'i addasu yn ôl anghenion lleol) yn cael ei ddarparu ym mhob rhanbarth er mwyn creu consortia hyfforddi rhanbarthol. Ar ôl hynny, bydd y consortia hyfforddi rhanbarthol yn darparu hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" yn eu hardal leol/awdurdod perthnasol o fewn strwythur a phatrwm sy'n cwrdd ag anghenion lleol.

Integreiddio'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu"

“Gofyn a Gweithredu” yw un o’r newidiadau pwysicaf mewn ymarfer sy’n cael eu hwyluso drwy’r “Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol”.

Mae’r ddau bolisi hyn a luniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu hintegreiddio gan fod y broses leol o ddarparu’r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol hefyd yn darparu agweddau allweddol o’r broses “Gofyn a Gweithredu”.

Mae hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn berthnasol i grwpiau 2 a 3 yn y “Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol”.

Grŵp 2 Bydd hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn helpu staff i adnabod dangosyddion nifer o fathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i gymryd camau priodol.

Grŵp 3 Bydd hyfforddiant hyrwyddwyr “Gofyn a Gweithredu” yn sicrhau bod nifer o “hyrwyddwyr” ym mhob awdurdod perthnasol sy’n gallu cynorthwyo cydweithwyr sydd wedi’u hyfforddi i “Ofyn a Gweithredu”. Bydd yr “hyrwyddwyr” hyn yn gallu cynnig cyngor ar sail eu gwybodaeth ehangach i’r rheini sydd wedi’u hyfforddi i “Ofyn a Gweithredu” ynghylch a ydynt wedi cymryd yr holl gamau sy’n briodol, wedi ystyried anghenion holl aelodau’r teulu ac wedi gwneud popeth yn eu gallu i wella diogelwch a llesiant yr un sy’n cael ei gam-drin.

Amrywio’r dull o weithredu “Gofyn a Gweithredu” mewn gwahanol awdurdodau perthnasol

Gan fod y canllawiau hyn yn manylu ymhellach ar y camau i roi “Gofyn a Gweithredu” ar waith, mae’n bwysig cydnabod na fydd y dull o weithredu yr un fath ym mhob awdurdod perthnasol. Bydd y grwpiau cleientiaid a’r strwythurau’n amrywio, fel y bydd y cynulleidfaoedd a gaiff flaenoriaeth.

Dylai pob awdurdod perthnasol ystyried beth yw’r ffordd orau o gynnig “Gofyn a Gweithredu” drwy ei wahanol swyddogaethau a rolau proffesiynol. Fodd bynnag, rhaid gweithredu’n unol ag un datganiad sylfaenol ym mhob amrywiad ar y broses:

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn galw am ymateb gan y gwasanaeth cyhoeddus. Mae’n hanfodol bod hyder gan weithwyr proffesiynol yn eu gallu i adnabod y problemau hyn, i holi amdanynt ac i ymateb yn effeithiol iddynt er mwyn sicrhau ymarfer da mewn gwasanaethau clinigol a gofal cymdeithasol.

“Gofyn a Gweithredu” yng nghyd-destun y DU a’r cyd-destun rhyngwladol

Mae’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Sefydliad Iechyd y Byd yn argymhell darparu system o holi clinigol wedi’i dargedu ym mhob gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn gwella’r gallu i adnabod achosion o gam-drin domestig ac felly i ymateb iddynt.^{1 2}

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac wedi cymryd camau pellach i bennu arferion da drwy gefnogi’r defnydd o ymholi o’r fath yn yr holl awdurdodau perthnasol. Mae hefyd yn cynnig ehangu cwmpas y broses ychydig drwy holi am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rôl i’r gwasanaeth cyhoeddus cyfan yw ymateb yn effeithiol i’r rheini sy’n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyn yn galw am gydweithio, yn ei ystyr ehangaf, i gynnig ymateb cyson a safonol, drwy ba lwybr bynnag (tai, iechyd, gofal cymdeithasol etc) y bydd y cleient yn cael gafael ar wasanaeth. Mae arweinyddiaeth a chydgyssylltu strategol yn hanfodol i sefydlu proses sy’n addas i’r gweithlu, i’r awdurdod perthnasol ac, yn fwy na dim, i’r cleient.

Nodau “Gofyn a Gweithredu”

- Adnabod mwy o bobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i'r rheini sy'n cael eu hadnabod, fel y darperir cymorth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient;
- Dechrau creu diwylliant ar draws y gwasanaeth cyhoeddus lle mae'r pwysigrwydd o ddelio â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi'i ddeall, lle mae datgelu'n cael ei dderbyn a'i hwyluso, a chymorth priodol a chyson yn cael ei ddarparu;
- Gwella'r ymateb i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl;
- Ymgysylltu'n rhagweithiol, ar y cyfle cyntaf posibl, â'r rheini sy'n agored i niwed a chuddiedig, yn lle dim ond ymgysylltu'n ymatebol â'r rheini sydd eisoes mewn argyfwng neu mewn perygl agos o gael niwed difrifol.

Pedwar cam gweithredu "Gofyn a Gweithredu"

Sefydlu'r dull llywodraethu

- Penodi i'r rôl "arweiniol" ar gyfer "Gofyn a Gweithredu"
- Sefydlu grŵp llywio

Cynllunio

- Paratoi strategaeth gyfathrebu
- Dadansoddi anghenion hyfforddi
- Dewis ymarferwyr a fydd yn "Gofyn a Gweithredu"
- Datblygu cynllun hyfforddi
- Datblygu consortia hyfforddi rhanbarthol
- Datblygu polisi "Gofyn a Gweithredu"
- Cytuno ar brotocol ar gyfer atgyfeirio
- Datblygu, cadarnhau a gwarantu Protocol Rhannu Gwybodaeth
- Pennu'r data llinell sylfaen
- Datblygu cynllun casglu data

Hyfforddi

- Darparu'r cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr

Cyflwyno

- Rhoi'r cynllun hyfforddi ar waith
- Y consortia hyfforddi rhanbarthol yn darparu hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" yn barhaus
- Y staff sy'n rhoi "Gofyn a Gweithredu" ar waith yn cael cymorth i reoli'r effaith o ddatgeliadau
- Monitro gweithdrefnau diogelu i sicrhau eu bod wedi'u halinio
- Monitro effaith "Gofyn a Gweithredu"

1. Sefydlu'r dull llywodraethu

Er bod nifer o awdurdodau perthnasol eisoes wedi dechrau defnyddio dull o ymarfer sy'n debyg i "Gofyn a Gweithredu", bydd angen newid sylweddol mewn ymarfer ar raddfa fawr er mwyn cyflawni'r gwaith hwn. Felly, cyn cyflwyno'r dull hwn o weithredu, bydd angen ymgymryd â gwaith cynllunio sylweddol i sicrhau bod yr awdurdod perthnasol yn barod ac yn ymwybodol o "Gofyn a Gweithredu" a'i oblygiadau. Mae hyn yn cynnwys sefydlu'r strwythurau llywodraethu sydd eu hangen i oruchwylio ei weithrediad.

Er mwyn sicrhau bod y trefniadau cynllunio ar gyfer gweithredu "Gofyn a Gweithredu" yn gadarn, bydd angen i'r strwythurau a'r unigolion canlynol fod yn eu lle ar lefel y sefydliad a'r rhanbarth:

a. Lefel y sefydliad – dewis swyddog arweiniol ar gyfer y gwaith

Dylai pob awdurdod perthnasol ddewis swyddog arweiniol ar gyfer "Gofyn a Gweithredu". Arweinwyr sy'n debygol o fod yn addas yw'r rheini sydd eisoes yn gyfrifol am faterion diogelu (fel pennaeth un o'r timau diogelu, cydgysylltwyr cam-drin domestig neu gydgyssylltwyr/cynghorwyr rhanbarthol). Dylai'r gwaith gael ei oruchwylio a'i "ddal" gan uwch-reolwr fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r arweinydd ar Iechyd Menywod a Phlant.

Gall fod yn fuddiol sefydlu arweinwyr ychwanegol ar gyfer pob un o'r rolau proffesiynol sydd â blaenoriaeth yn yr awdurdod perthnasol (e.e. arweinydd ar ddiogelu ac arweinydd ar gyfer bydwreigiaeth etc.) ond mater i chi yw hyn. Mae'n bwysig bod cyfrifoldeb clir dros y gwaith yn cael ei ddyrannu i berson penodol. Bydd yr arweinydd yn gyfrifol am sefydlu "Gofyn a Gweithredu" yn ei awdurdod perthnasol ac am gynrychioli'r awdurdod perthnasol mewn trefniadau rhanbarthol.

Mae'n bwysig bod yr holl arweinwyr sefydliadol sy'n gweithio o fewn y rhanbarth yn cael eu cydgysylltu. Bydd yr hyfforddiant ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" (sydd wedi'i ddisgrifio'n fwy manwl isod) yn cael ei ddarparu ar lefel ranbarthol, felly bydd cydgysylltu ar lefel ranbarthol yn hanfodol wrth gyflwyno "Gofyn a Gweithredu". Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bosibl y bydd y rhanbarthau am enwebu un awdurdod a fydd yn cydgysylltu'r gwaith rhanbarthol ac yn cadeirio'r trefniadau rhanbarthol (gweler isod) ar gyfer gweithredu. Lle mae Cynghorydd Rhanbarthol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'i benodi, dylid cynnwys y gwaith cydgysylltu rhanbarthol ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" yn ei rôl.

Gwersi a ddysgwyd o'r gwaith mabwysiadu cynnar:

Roedd y gwaith gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi cael ei arwain gan y Nyrs Benodol dros Ddiogelu a'r Arweinydd ar Ddiogelu Oedolion.

Yn Awdurdodau Lleol De-ddwyrain Cymru, roedd y gwaith hwn wedi'i arwain gan y Cynghorydd Rhanbarthol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

b. Lefel y rhanbarth – Sefydlu grŵp llywio i arwain a goruchwylio wrth roi “Gofyn a Gweithredu” ar waith

Er mwyn rhoi “Gofyn a Gweithredu” ar waith, bydd angen goruchwyliaeth ar lefel ranbarthol er mwyn delio â materion hyfforddiant sy’n codi, wynebu heriau o ran hyfforddiant gweithredol a chynllunio hyfforddiant yn rhagweithiol ynghylch tueddiadau sy’n datblygu.

Yn ôl y graddau y mae’r trefniadau rhanbarthol wedi’u sefydlu, mae’n bosibl y byddwch am sefydlu grŵp rhanbarthol newydd i oruchwylio’r gweithredu ar hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu”. Fel arall, gallech gynnwys gweithredu hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn y Cylch Gorchwyl i grŵp rhanbarthol perthnasol sydd eisoes wedi’i sefydlu.

Mater i’r awdurdodau perthnasol fydd dewis ai grŵp newydd neu grŵp presennol allai orchwylio’r gwaith o weithredu hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu”.

Bydd grŵp “Gofyn a Gweithredu” yn rhoi’r cyfle i ddwyn ynghyd yr arweinwyr o’r awdurdodau perthnasol yn y rhanbarth a phartneriaid perthnasol o bob rhan o’r sector cyhoeddus a’r sector arbenigol (fel gwasanaethau arbenigol ar gam-drin domestig a thrais rhywiol). Gall adrodd i fwrdd strategol priodol fel y Bwrdd Rhanbarthol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Bwrdd Diogelwch Cymunedol neu Fwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Integreiddio trefniadau ar gyfer goruchwylio “Gofyn a Gweithredu” a rhai ar gyfer diogelu a llesiant cenedlaethau’r dyfodol

Petai’r awdurdodau perthnasol yn penderfynu creu grŵp newydd i oruchwylio’r gwaith o weithredu hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu”, dylid sicrhau bod cyfathrebu ag unrhyw Fyrddau Diogelu Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail i’r gwaith ar ddelio â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

2. Cynllunio

a. Cyfathrebu

Drwy roi “Gofyn a Gweithredu” ar waith ar draws y sefydliad, dylid gallu trawsnewid yr ymateb i'r rheini sy'n profi neu sydd mewn perygl o brofi pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mhob awdurdod perthnasol.

Dylid drafftio cynllun cyfathrebu ar gyfer “Gofyn a Gweithredu” yn gynnar yn y cyfnod cynllunio er mwyn sicrhau cyfathrebu amserol i amlinellu pwrpas y newid hwn mewn ymarfer a'r cynllun ar gyfer ei weithredu. Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau bod staff ac arweinwyr wedi'u cynnwys yn y gwaith ac yn teimlo'n barod i weithredu.

Dylai'r cynllun cyfathrebu gynnwys ymgysylltu strategol ac ymgysylltu â'r arweinwyr, gan gynnwys byrddau a phartneriaethau perthnasol, yn ogystal â bwletinâu ar gyfer yr holl staff. Dylid cynnwys timau sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu, adnoddau dynol a dysgu a datblygu mor gynnar â phosibl yn y gwaith cynllunio hwn gan mai'r timau hyn, gan amlaf, sy'n rheoli'r systemau a phrosesau ar gyfer rhannu mathau eraill o hyfforddiant.

Bydd llawer o'r rheini sy'n gweithio mewn awdurdodau perthnasol yn gweld “Gofyn a Gweithredu” yn ffordd o ffurfioli'r gwaith y maent yn ei wneud yn barod. Fodd bynnag, wrth i chi roi gwybod am y dull o weithredu, mae'n bosibl y byddwch yn dod ar draws cwestiynau neu bryderon ynghylch beth fydd “Gofyn a Gweithredu” yn ei olygu i staff yn yr awdurdod perthnasol ac i'r grŵp cleientiaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio rhestr o 'Gwestiynau Cyffredin'/'Rhwystrau rhag Gweithredu' a fydd yn helpu arweinwyr i gyfathrebu ynghylch “Gofyn a Gweithredu” ac ymateb i unrhyw bryderon.

b. Aseiad lleol o anghenion hyfforddi ar sail anghenion pob grŵp yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a chynllun hyfforddi sefydliadol sy'n amlinellu sut y bydd gweithwyr proffesiynol ym mhob grŵp yn y Fframwaith ar bob safle yn cael eu hyfforddi a'r amserlen ar gyfer hynny

Roedd yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol gyflwyno cynllun hyfforddi i Weinidogion Cymru erbyn 31 Mawrth 2017 o dan y “Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Canllawiau Statudol”. Roedd yn ofynnol hefyd fod y cynllun hwn yn cael ei seilio ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol.

Dylid diweddarau'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi a'r cynllun i adlewyrchu'r gwaith cynllunio ar gyfer darparu hyfforddiant ar “Gofyn a Gweithredu”. Dylech roi ystyriaeth yn y dadansoddiad i'r proffesiynau/meysydd ymarfer/swyddogaethau sefydliadol rydych am roi blaenoriaeth iddynt ar gyfer “Gofyn a Gweithredu”. Gallech ystyried pennu'r blaenoriaethau hyn ar sail cyfuniad o'r ffactorau canlynol:

- Y gwersi a ddysgwyd o unrhyw waith lleol ar Adolygu Dynladdiadau Domestig, Adolygiad Ymarfer Plant neu Adolygiad Ymarfer Oedolion a oedd yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Eich amcanion strategol lleol.
- Data lleol am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys data a gafwyd gan wasanaeth arbenigol lleol a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC).

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i flaenoriaethu'r gweithwyr proffesiynol canlynol ar gyfer darparu hyfforddiant ar "Gofyn a Gweithredu" a'i gyflwyno ym mhob awdurdod perthnasol.

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG
Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd Ymarferwyr Cyffredinol a thimau iechyd sylfaenol Adrannau Argyfwng Camddefnyddio sylweddau Iechyd Meddwl Nyrsio ardal a chymunedol Y Gwasanaeth Ambiwlans Nyrsys ysgol Gwasanaethau Iechyd Rhywiol
Awdurdodau Lleol
Diogelu Diogelu mewn Addysg Swyddogion Tai, Dewisiadau Tai a Digartrefedd Timau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid Gwasanaethau arian, dyled a lles Timau anabledd a phontio
Awdurdodau Tân ac Achub
Yr holl ddiffoddwyr tân sydd â chyfrifoldebau yn y gymuned

Bydd y dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn cyfrannu i'r cynllun hyfforddi. Dylid drafftio'r cynllun ar sail rhagolwg pum mlynedd, er y bydd angen ei adolygu a chynnwys manylion ynddo bob blwyddyn. Nid oes disgwyl y bydd yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi yn y cyfnod hwn o bum mlynedd: bydd yr hyfforddiant ar "Gofyn a Gweithredu" yn cael ei ddarparu'n barhaus, ar sail cynlluniau pellach a diwygiedig. Dylid edrych arno yn yr un ffordd â hyfforddiant ar ddiogelu, yn weithgarwch craidd parhaus i'r awdurdod perthnasol.

Dylid cynnwys asesiad hefyd yn y cynllun o'r gallu sydd ar gael i gwrdd â'r anghenion hyfforddi gan roi sylw i'r angen am ymaelodi â chonsortia hyfforddi.

Wrth drafod y proffesiynau/meysydd ymarfer/swyddogaethau sefydliadol sydd â blaenoriaeth, bydd angen hefyd i chi ystyried y rolau proffesiynol sy'n addas ar gyfer yr hyfforddiant a niferoedd y rolau hyn yn yr awdurdod perthnasol.

Er mwyn dewis y rolau proffesiynol sy'n fwyaf addas ar gyfer "Gofyn a Gweithredu", dylai'r awdurdod perthnasol ystyried y graddau y mae'r rôl yn bodloni'r meini prawf canlynol ar gyfer dewis:

Mae'r gweithiwr proffesiynol:

- Yn cyflawni rôl gyda'r cyhoedd, gan ddod i gysylltiad â chleientiaid lle mae asesiad yn cael ei wneud a/neu ofal yn cael ei ddarparu sy'n rhoi cyfle i "ofyn".

Gall hyn fod yn gysylltiad sy'n digwydd unwaith neu'n rhan o berthynas barhaus â'r cleient.

ac;

- Yn cyflawni rôl lle mae'r grŵp cleientiaid yn debygol o fod wedi profi math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r profiad hwn yn cymhlethu ac yn effeithio ar natur yr ymgysylltu gan y cleient â'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnis drwy'r rôl honno.

neu;

- Mewn sefyllfa neu leoliad sy'n rhoi rheswm ar ei ben ei hun i "Ofyn a Gweithredu" (bydwreigiaeth, iechyd meddwl, cam-drin plant).

Mae'r broses "Gofyn a Gweithredu" yn galw am sgiliau gwranddo, y gallu i ymateb yn dawel a chydag empathi i gleient a all fod yn profi gofid, a gwybodaeth syml am wasanaethau lleol sydd ar gael drwy brotocolau atgyfeirio.¹

Yn achos y gweithwyr proffesiynol hynny sydd eisoes yn gweithio gyda grŵp cleientiaid, lle mae'r sgiliau hyn wedi'u haddysgu'n rhan o addysg cyn cymhwyso ac wedi'u mireinio drwy berthnasoedd â chleientiaid, y disgwyl yw na fydd y camau sydd i'w cymryd yn y broses "Gofyn a Gweithredu" yn wahanol iawn i'r rheini y maent eisoes yn eu cyflawni drwy eu rôl. Bydd disgwyl i'r gweithwyr proffesiynol hyn arfer y broses "Gofyn a Gweithredu" a byddant yn cael blaenoriaeth ar gyfer derbyn hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" er mwyn ffurfioli'r hyn a ddylai eisoes fod yn arfer da ganddynt.

Mae gweithwyr proffesiynol eraill mewn awdurdodau perthnasol nad ydynt yn gweithio gyda grŵp cleientiaid drwy'r amser ac a fydd o bosibl yn gweld y broses "Gofyn a Gweithredu" yn newydd ac efallai'n fygythiol. Fodd bynnag, fe ddylai'r broses "Gofyn a Gweithredu" fod yn syml ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod dilyn proses o'r fath yn dderbyniol i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Nid yw'r broses "Gofyn a Gweithredu" wedi'i bwriadu ar gyfer gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn cyflawni rolau gyda'r cyhoedd ar hyn o bryd.




¹ Mae disgrifiad manwl o ymarfer "Gofyn a Gweithredu" yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru *Darparu "Gofyn a Gweithredu" – rôl yr ymarferydd rheng flaen*.

Datblygwyd y matrices canlynol ar un o'r safleoedd mabwysiadu cynnar i gymhwyso'r meini prawf hyn at ymarfer:

Dysgu gwersi o'r safleoedd mabwysiadu cynnar

Datblygwyd matrices gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i'w ddefnyddio gan arweinydd pob tîm ar ôl pennu blaenoriaeth safleoedd ar gyfer treialu er mwyn plotio'r rolau yn eu timau ar sail y meini prawf ar gyfer "Gofyn a Gweithredu"

Allwedd:

-  Grŵp 1: angen hyfforddi (Ymwybyddiaeth)
-  Grŵp 2: angen hyfforddi (Gofyn a Gweithredu)
-  Grŵp 2: yn ôl disgrisiwn y Rheolwr










Cysylltiad Arwyddocaol:

Cysylltiad gan weithiwr proffesiynol â chleient lle mae asesiad a/neu ofal yn cael ei ddarparu a lle mae cyfle i "ofyn".

Gall hyn fod yn gysylltiad sy'n digwydd unwaith neu'n rhan o berthynas barhaus â'r cleient.

Sylfaen Dystiolaeth:

Wedi'i seilio ar ymchwil sy'n ymwneud â sgrinio neu ymholi am fathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

LLEOLIAD A GRŴP CLEIENTIAID	Y lleoliad lle mae'r gweithiwr proffesiynol yn gweithio yn rheswm ar ei ben ei hun i "Ofyn a Gweithredu" (Lleoliad)			
	Y grŵp cleientiaid yn debygol iawn o fod wedi profi math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol			
	Y grŵp cleientiaid yn debygol o adlewyrchu ystadegau cenedlaethol am nifer yr achosion			
		Dim cysylltiad arwyddocaol	Cysylltiad nad yw'n arwyddocaol	Cysylltiad arwyddocaol

Rydym yn darparu'r meini prawf hyn am nad yw'n bosibl darparu rhestr gyflawn o weithwyr proffesiynol a ddylai allu "Gofyn a Gweithredu" a hefyd am nad yw'n bosibl hyfforddi grŵp mor fawr o weithwyr proffesiynol mewn cyfnod byr. Bydd y gwaith o hyfforddi a gweithredu ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" yn broses barhaol ym mhob rhanbarth/sefydliad. Dylid cynllunio ar y dechrau ar gyfer hyfforddi cynulleidfaoedd sydd â blaenoriaeth dros gyfnod o bum mlynedd ond bydd angen hyfforddi cynulleidfaoedd ehangach ar ôl hynny.

Drwy gymhwyso'r meini prawf, bydd awdurdodau perthnasol yn gallu ystyried sut i bennu'r flaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant ar "Gofyn a Gweithredu" gan gynllunio yn y tymor hirach i gwrdd â'r anghenion hyfforddi sydd gan grŵp ehangach o weithwyr proffesiynol.

Mae gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 yn gymwys i awdurdodau perthnasol (sydd wedi'u diffinio yn y Ddeddf fel awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.) Yn unol â nod a phwrpas y Ddeddf, mae'r gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u nodi uchod (i gael blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" a chyflwyno'r broses) yn cael eu cyflogi fel arfer gan yr awdurdodau perthnasol. Er hynny, mae'n bwysig nodi bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio y tu allan i'r awdurdodau perthnasol y gallai fod yn briodol ystyried eu cynnwys hefyd mewn cynlluniau hyfforddi ar gyfer "Gofyn a Gweithredu". Yn benodol, dylid ystyried cynnwys y rheini sy'n darparu tai cymdeithasol, gan eu bod yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gleientiaid o bob math.

Gan eu bod yn cyflogi ymarferwyr a fydd yn "Gofyn a Gweithredu", dylai awdurdodau perthnasol sicrhau bod ymarferwyr:

- wedi'u hyfforddi'n ddigonol (drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol);
- yn cael cymorth i weithredu'r broses "Gofyn a Gweithredu" mewn ffordd ddiogel ac empathig;
- yn gallu sicrhau bod ymarfer yn cael ei fonitro er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleient fel elfen ganolog yn eu holl waith.

c. Cynnal consortiwm hyfforddi rhanbarthol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau ar gyfer hyfforddi ar draws y rhanbarth a phennu'r flaenoriaeth ar gyfer hyfforddi gweithwyr proffesiynol drwy'r cynllun hyfforddi

Er mwyn cyflawni hyn, dylid casglu cynlluniau hyfforddi pob un o'r awdurdodau perthnasol a'u hystyried gyda'i gilydd. Dylai'r cynnwys sy'n ymwneud â grwpiau 2 a 3 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gael ei alinio a'i ystyried ar sail ranbarthol.

Wedi i chi gytuno ar y meysydd lle rydych yn bwriadu rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" ac ar eich cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, bydd angen dechrau dewis darpar hyfforddwyr ym mhob rhan o'r awdurdod perthnasol i ddilyn y rhaglen "Hyfforddi'r Hyfforddwyr" a symud ymlaen â'r rhaglen hyfforddi ar gyfer eich staff. Ar ôl hyfforddi'r darpar hyfforddwyr hyn, y rhain fydd eich consortiwm hyfforddi rhanbarthol.

Y model hyfforddi ar gyfer “Gofyn a Gweithredu” yw’r model “hyfforddi’r hyfforddwyr”: bydd y consortiwm hyfforddi rhanbarthol yn cyflwyno rhaglen hyfforddi a ddatblygwyd ar lefel genedlaethol i gydweithwyr. Bydd darparwr canolog, Cymorth i Ferched Cymru, yn hyfforddi’r consortia i ddarparu’r hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn eu sefydliadau eu hunain a bydd yn rhoi cymorth i barhau â’r gwaith hwn.

Gellir trefnu’r consortiwm hyfforddi rhanbarthol yn y ffordd sy’n fwyaf addas i’ch ardal. Mae angen ymrwymiad sylweddol i ddod yn hyfforddwr “Gofyn a Gweithredu” (ar gyfer grŵp 2), gan fod hyn yn galw am gwblhau cwrs hyfforddi dau ddiwrnod a thua 15-20 awr o waith asesu ac achredu. Er mwyn dod yn hyrwyddwr hyfforddi (grŵp 3) rhaid derbyn diwrnod ychwanegol o hyfforddiant a gwneud gwaith pellach ar asesu. Felly, gallech ddymuno enwi darpar hyfforddwyr sy’n ymddiddori yn y gwaith hwn ac sydd wedi ymrwymo i herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu sefydliadau.

Yn y consortiwm, dylai’r darpar hyfforddwyr fod yn gynrychiadol o’r rhai yr ydych wedi’u blaenoriaethu i gael hyfforddiant yn y rhanbarth. Dylai fod ganddynt wybodaeth arbenigol a dylent adlewyrchu’r gynulleidfa rydych yn rhoi blaenoriaeth iddi.

Mae’n bwysig i chi ystyried y strwythurau sydd ar gael yn eich awdurdod perthnasol a’ch rhanbarth sy’n gallu cynorthwyo, cynnwys neu ategu gwaith y consortiwm hyfforddi rhanbarthol. Mewn nifer o ardaloedd, mae Grwpiau Rheolwyr Hyfforddi, Hyfforddwyr Diogelu Rhanbarthol a Phartneriaethau Datblygu’r Gweithlu wedi’u sefydlu eisoes sy’n cynnig strwythurau a phrosesau sy’n hanfodol i lwyddiant y broses o gyflwyno “Gofyn a Gweithredu”, a phersonél hyfforddi profiadol a medrus.

Ffurio’r consortia hyfforddi rhanbarthol

Dylai’r consortiwm hyfforddi rhanbarthol fod yn rhan o fodel hyfforddi cynaliadwy y gellir ei gynnwys yn y dull ymarfer presennol ym mhob awdurdod perthnasol sy’n cymryd rhan yn y gwaith rhanbarthol. Mae’n bwysig felly fod y rheini sy’n aelodau o’r consortiwm hyfforddi rhanbarthol yn cael eu recriwtio ar sail meini prawf a bod yr aelodau a’u rheolwyr yn glir ynghylch yr ymrwymiad y maent yn ei wneud drwy fod yn aelod o’r consortiwm. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhai a ddewisir fel darpar hyfforddwyr yn bobl addas ar gyfer y rôl, a bydd yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o’r hyfforddwyr hyfforddedig yn rhoi’r gorau iddi.

Mae’r meini prawf aelodaeth canlynol yn enghraifft o arfer da ar gyfer consortia hyfforddi rhanbarthol:

1. Mae’r darpar hyfforddwr yn meddu ar wybodaeth arbenigol am gam-drin domestig, trais rhywiol neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod o ganlyniad i ymarfer yn y maes hwn; neu
2. Mae’r darpar hyfforddwr yn meddu ar wybodaeth dda am hanfodion maes gwaith un o’r cynulleidfaoedd sydd â blaenoriaeth a bydd yn hyrwyddo’r dull o weithredu yn y proffesiwn hwnnw; a
3. Mae gan y darpar hyfforddwr brofiad o ddarparu hyfforddiant.

Mae'r holl hyfforddiant ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" i gael ei ddarparu gan ddau hyfforddwr, un yn bodloni'r maen prawf cyntaf uchod, a'r llall yn bodloni'r ail faen prawf. Bydd profiad o ddarparu hyfforddiant gan o leiaf un o'r ddau.

Er mwyn sicrhau bod aelodau'r consortiwm hyfforddi rhanbarthol yn darparu hyfforddiant yn ddigon aml i gadw'r wybodaeth angenrheidiol a pharhau'n hyderus, rydym yn argymhell y dylent gael eu rhyddhau o'u dyletswyddau craidd i ddarparu hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" hyd at chwe gwaith y flwyddyn a bod y rheini sydd wedi'u hyfforddi i ddarparu hyfforddiant i grŵp 3 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cael eu rhyddhau i ddarparu hyfforddiant hyd at bum gwaith y flwyddyn. Mae'n bwysig bod y rheini sy'n rheoli aelodau'r consortiwm hyfforddi rhanbarthol yn ymwybodol o hyn a'u bod yn rhannu ymrwymiad eu staff.

Bydd y rheini sy'n eu henwebu eu hunain neu'n cael eu dewis i fod yn aelodau o'r consortiwm hyfforddi rhanbarthol yn cael eu hyfforddi drwy'r rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr. Bydd y rhaglen hon yn cwmpasu'r prif negeseuon ar gyfer hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" ac yn darparu cymorth a sgiliau i gyflwyno negeseuon "Gofyn a Gweithredu" ar lefel ranbarthol.

Bydd y dull hwn o weithredu'n caniatáu i'r awdurdodau perthnasol ddelio â hyfforddiant mewn ffordd hyblyg gan roi sylw i anghenion y cynulleidfaoedd sydd â blaenoriaeth. Mae'n bosibl y bydd prosesau neu raglenni hyfforddi ar waith yn barod y byddai'n fuddiol cynnwys "Gofyn a Gweithredu" ynddynt. Dylid ystyried sut y gellir integreiddio'r broses o gyflwyno "Gofyn a Gweithredu" â hyfforddiant gorfodol parhaus fel hwnnw ar gyfer diogelu neu ffyrdd eraill o ddatblygu'r gweithlu.

Yn ystod y blynyddoedd cyntaf wrth gyflwyno "Gofyn a Gweithredu", bydd cyfle i ddiweddarau aelodaeth y consortiwm bob blwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o gapasiti ar gael drwy'r amser i gwrdd â'r galw am hyfforddiant a bod aelodaeth y consortiwm yn cael ei haddasu yn ôl anghenion y gynulleidfa. Y disgwyl yw y bydd cynlluniau hyfforddi'r awdurdodau perthnasol yn pennu blaenoriaeth y cynulleidfaoedd dros gyfnod o bum mlynedd ac y bydd y cyfle i ddiweddarau aelodaeth y consortiwm bob blwyddyn yn rhoi'r gallu i gynnwys cynrychiolwyr y cynulleidfaoedd sydd wedi cael blaenoriaeth mewn blwyddyn benodol.

d. Polisi "Gofyn a Gweithredu" sy'n amlinellu'r dull o weithredu sydd i'w roi ar waith yn yr awdurdod perthnasol

Dylai'r polisi "Gofyn a Gweithredu" amlinellu'r ffordd y bydd yr awdurdod perthnasol yn rhoi "Gofyn a Gweithredu" ar waith. Dylai egluro'r dull o weithredu i ymarferwyr rheng flaen ac i reolwyr, gan nodi pa gymorth sydd ar gael i staff i'w helpu i "Ofyn a Gweithredu" a'u cynorthwyo os ydynt yn profi math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y ffordd o ddelio ag atgyfeiriadau a rolau a chyfrifoldebau'r holl staff.

Ni fydd angen polisi ar wahân o reidrwydd. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau perthnasol am gynnwys y testun priodol yn eu polisi ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y gweithle neu mewn polisi ar ddiogelu.

Dylid hefyd gynnwys y meysydd gwaith canlynol yn y broses o sefydlu “Gofyn a Gweithredu” a dylid cyfeirio atynt yn y ddogfen bolisi.

e. Protocol syml a chytunedig ar atgyfeirio sy'n egluro'r opsiynau ar gyfer atgyfeirio sydd ar gael i'r rheini sy'n datgelu'r profiad o unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae'n bwysig bod y protocol ar atgyfeirio yn cynnwys trefniadau ffurfiol gyda darparwyr gwasanaethau arbenigol ar lefel leol a chenedlaethol sy'n gallu cynnig cymorth arbenigol i'r rheini sy'n datgelu profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n bwysig na fydd y rheini y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt yn cael eu hystyried yn “ddioddefwyr” yn unig. Rhaid ystyried anghenion yr unigolyn mewn ffordd gyfannol ac felly, wrth ddatblygu protocol ar atgyfeirio, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i unrhyw nodweddion gwarchoddedig, anghenion ychwanegol neu ffactorau sy'n ei wneud yn agored i niwed.

Er y bydd y cymorth i ddiwallu anghenion rhai cleientiaid yn cael ei ddarparu gan wasanaethau statudol drwy'r Awdurdod Lleol (gweler **Alinio “Gofyn a Gweithredu” â phrosesau diogelu statudol**), dylai hefyd gynnwys cymorth a chyngor a ddarperir drwy wasanaeth arbenigol.

Mae mwyafrif y gwasanaethau cymorth arbenigol yn rhan o'r trydydd sector ac yma hefyd y ceir y rhan fwyaf o'r arbenigedd mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Felly er mwyn cynnig ymateb effeithiol gan y gwasanaeth cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy'r broses “Gofyn a Gweithredu”, bydd angen cydweithio a gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector. Mae'r trydydd sector yn cynnig mynediad at arbenigedd i gleientiaid, yn darparu opsiynau os nad yw achos yn cyrraedd y trothwyon statudol, yn ehangu cwrpas y cymorth ac yn eirioli dros y grŵp cleientiaid.

Er mwyn cynnig gwasanaethau o'r fath i gleientiaid, mae'n bwysig sefydlu protocolau ar atgyfeirio rhwng yr awdurdodau perthnasol a gwasanaethau sy'n arbenigo mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai'r protocolau hyn fod yn ffurfiol ac wedi'u seilio ar gytundeb lefel gwasanaeth. Mae'n bwysig hefyd fod y protocol ar atgyfeirio yn syml fel y bydd yn hawdd ei ddilyn. Gorau oll os mai dim ond un cam y bydd staff yr awdurdod perthnasol yn gorfod ei gymryd (fel galw rhif ffôn neu lenwi ffurflen atgyfeirio fyr) er mwyn “Gweithredu”.

Mae'n bosibl y bydd amrywiaeth o wasanaethau lleol ar gael yn yr ardal ac, felly, y bydd amrywiaeth o opsiynau i'w chynnig i'r cleient. Os felly, gallai fod yn briodol gwneud protocol ar atgyfeirio ag un sefydliad a fydd yn trosglwyddo atgyfeiriadau i sefydliadau eraill sy'n bartneriaid iddo ar sail anghenion a dewisiadau penodol y cleient. Dylid datblygu dull gweithredu o'r fath mewn partneriaeth â'r holl wasanaethau perthnasol gan ddal sylw ar ddeddfwriaeth ar ddiogelu data ac unrhyw ofynion o ran atgyfeirio sydd wedi'u pennu eisoes gan y cyrff sy'n ariannu'r gwasanaethau hyn. Dylid rhoi sylw hefyd i gynnwys y canllawiau ar Gomisiynu sydd i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru erbyn canol 2018.

Nid yr un ymateb fydd ei angen ym mhob sefyllfa ac i bob person a bydd gwasanaethau'n gosod trothwyon gwahanol ar gyfer derbyn cleientiaid. Er hynny, wrth fabwysiadu "Gofyn a Gweithredu", bydd angen i bob awdurdod perthnasol ystyried y cydbwysedd rhwng meithrin dealltwriaeth glir ac ymarferol ymysg ei staff o'r hyn y mae "Gweithredu" yn ei olygu a chydabod nad yw'r rheini sydd wedi profi mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn grŵp unffurf ac y bydd anghenion penodol gan bob un ohonynt. Wrth gwrs, yn y rhan fwyaf o achosion, y cleient a ddylai benderfynu pa opsiynau sydd orau ganddo ac a yw'n dymuno cael ei atgyfeirio o gwbl.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn well dilyn protocol lleol yn hytrach na phrotocol cenedlaethol gan y bydd yn gwneud defnydd o arbenigedd lleol, yn fwy tebygol o sicrhau cysylltiad wyneb yn wyneb i'r cleient ac yn gwella'r perthnasoedd gweithio lleol a gwaith amlasiantaethol. Fodd bynnag, fe ddylai awdurdodau perthnasol hefyd ystyried sefydlu protocol cenedlaethol gyda'r llinell gymorth Byw Heb Ofn er mwyn sicrhau, lle na ellir dilyn protocol lleol (oherwydd oriau gweithredu'r gwasanaeth, trothwyon risg neu'r capasiti sydd ar gael), fod modd darparu opsiwn i'r cleient bob amser.²

Wrth lunio'r protocol ar atgyfeirio, dylid ystyried hefyd sut i ffurfio cysylltiadau priodol â phartneriaethau amlasiantaeth lleol. Mae'n bosibl na fydd yn briodol i'r gweithiwr proffesiynol sy'n cael y datgeliad wneud atgyfeiriad uniongyrchol i'r rhain, ond dylid ystyried sut y bydd y protocol yn darparu ar gyfer hyn. Mae disgrifiad byr isod o'r fforymau amlasiantaeth sy'n debygol o fod ar waith yn eich ardaloedd lleol.

Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)

Mae MARAC yn gyfarfod rhwng darparwyr gwasanaethau lleol lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu am oedolion a brofodd gam-drin domestig yr aseswyd eu bod yn wynebu risg fawr o gael eu llofruddio neu eu niweidio'n ddifrifol. Bydd pob asiantaeth sy'n cymryd rhan yn gallu atgyfeirio dioddefwyr ac fel arfer bydd y MARAC yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu ac o wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd, amddiffyn plant, a thai, gwasanaethau sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig, gwasanaethau prawf, iechyd meddwl, a chamddefnyddio sylweddau ac arbenigwyr eraill yn y sectorau statudol a gwirfoddol. Cyn y cyfarfod, bydd gwasanaeth arbenigol (Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig) yn cysylltu â dioddefwyr, os yw'n ddiogel gwneud hynny, a bydd y gwasanaeth arbenigol hwnnw'n cynrychioli eu barn a hefyd yn adrodd yn ôl iddynt ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod y cyfarfod, bydd gwybodaeth berthnasol a chymesur yn cael ei rhannu am y risgiau y mae dioddefwr y cam-drin domestig yn eu hwynebu ar y pryd. Ar sail y wybodaeth hon, bydd y cynrychiolwyr yn gallu pennu opsiynau i wella diogelwch y dioddefwr a'i blant. Datblygir cynllun gweithredu amlasiantaeth yn y cyfarfod sydd â'r amcan o leihau'r risg y mae'r dioddefwr a'i blant yn ei hwynebu a delio â'r risg sy'n cael ei hachosi gan y camdriniwr.

Galwadau Cynadledda Cam-drin Domestig

² <http://livefearfree.gov.wales/?lang=cy>

Mae galwadau cynadledda cam-drin domestig yn cael eu cadeirio gan yr heddlu a'u cynnal bob diwrnod i drafod y digwyddiadau cam-drin domestig a oedd wedi'u cofnodi dros nos. Bydd nifer o asiantaethau proffesiynol perthnasol yn ateb y galwadau. Rhoddir y wybodaeth ar wefan ddiogel a bydd partneriaid statudol yn gallu ei chyrchu er mwyn rhannu gwybodaeth yn ddiogel, yn gyflym ac yn ddirwystr.

Yn ystod yr alwad, cytunir ar gynllun rheoli risg i amddiffyn y dioddefwr a'r teulu ehangach ac i ddelio ag ymddygiad y camdriniwr. Nod y galwadau hyn yw ymyrryd yn gynharach (cyn i'r risg waethygu), a rhannu gwybodaeth yn effeithlon ac yn gyfrifol ar bob achos rhwng nifer o asiantaethau.

Mae'r partneriaid yn gweld manteision drwy gael gwybodaeth yn gynnar, adnabod mwy o ddioddefwyr a'u hatgyfeirio i wasanaethau arbenigol. Gwelwyd bod yr ymyriadau a gynigir i ddioddefwyr ar bob lefel risg yn fwy priodol, am eu bod yn fwy amserol ac yn fwy addas i ddiwallu anghenion penodol yr unigolion; bod asiantaethau'n fwy ymwybodol o'r camdrinwyr cyson a'r rhai a oedd yn cael eu cam-drin ganddynt; a'u bod yn gallu cynnig ymyriadau mwy cyfannol.³ Pan oedd asiantaethau wedi ymwneud â dioddefwyr sy'n wynebu risgiau llai, achoswyd llai o niwed a disgwylir canlyniadau gwell i'r dioddefwr a'i blant. Mae camdrinwyr yn cael eu hadnabod a'u dal yn atebol hefyd.⁴

Tîm Gweithredol Gweithwyr Rhyw

Mae'r tîm hwn yn cyflawni rôl debyg i'r MARAC gan ganolbwyntio ar weithwyr rhyw. Mae'r tîm yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n cynrychioli'r heddlu, y gwasanaethau iechyd a phrawf, prosiectau ymyriadau cyffuriau, gwasanaethau tai a chamddefnyddio sylweddau a'r sector arbenigol. Bydd yn rhannu gwybodaeth ac yn cydgysylltu gwaith mewn perthynas â gweithwyr rhyw.

Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH)

Mae'r MASH yn fenter ddiweddar a defnyddir yr acronym i ddisgrifio nifer o fodelau gwaith gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau hyn yn canolbwyntio ar ddiogelu plant ac yn aml yn darparu lleoliad ffisegol i dîm o weithwyr proffesiynol o nifer o asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaethau prawf, tân, ambiwlans, iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Bydd y gweithwyr proffesiynol hyn yn rhannu gwybodaeth i sicrhau bod y perygl o achosi niwed difrifol yn cael ei adnabod yn gynnar, ac yn cychwyn ymyriadau i atal niwed pellach. Mewn rhai mannau, mae'r MASH yn brysbennu achosion gan benderfynu, ar sail y wybodaeth a gasglwyd oddi wrth bob asiantaeth, pa asiantaeth sydd yn y lle gorau i ymgysylltu a dal y achos hwnnw. Mewn mannau eraill, bydd staff y MASH yn penderfynu, ar sail y wybodaeth a gasglwyd, ar yr ymyriad sy'n fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion penodol y plentyn. Mae rhai modelau'n cael eu datblygu i gynnwys oedolion sy'n peri pryder mewn perthynas â diogelu.

Yn ogystal â'r rhain, ceir canolfannau rhithwir a chanolfannau sy'n canolbwyntio ar feysydd arbenigol (gan gynnwys cam-drin domestig).

Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)⁵

Roedd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn darparu ar gyfer sefydlu Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd ym mhob un o'r 42 ardal cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Nid corff statudol yw MAPPA ond mecanwaith sy'n galluogi asiantaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn well ac amddiffyn y cyhoedd drwy ddull cydgysylltiedig.

Mae'r MAPPA yn rhoi'r gallu i asiantaethau asesu a rheoli troseddwr ar sail amlasiantaethol drwy gydweithio, rhannu gwybodaeth a chyfarfod i sicrhau bod cynlluniau effeithiol wedi'u gwneud. Bydd yr asiantaethau'n cadw eu holl gyfrifoldebau a rhwymedigaethau statudol bob amser. Mae'r holl droseddwr sy'n dod o dan MAPPA yn cael eu hasesu i bennu lefel y risg o achosi niwed i'r cyhoedd. Wedyn gwneir cynllun rheoli risg ar gyfer pob troseddwr i reoli'r risgiau hynny. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd i leihau'r risg.

Mae rhestr yma o'r mathau o wasanaethau sydd ar gael gan amlaf ar gyfer atgyfeirio cleientiaid.

e. Adnabod ac asesu risg

Nid oes angen mabwysiadu proses neu ddull manwl neu hir i adnabod risg er mwyn rhoi "Gofyn a Gweithredu" ar waith. Fodd bynnag, mae proses o'r fath yn rhan annatod o'r ymarfer presennol (yn enwedig ym maes cam-drin domestig) ac felly, wrth ddatblygu protocol ar atgyfeirio, dylid ystyried sut a pha bryd y gellir cynnig proses ar gyfer adnabod risg i gleientiaid sy'n datgelu achosion o gam-drin. Mater i'r awdurdod perthnasol yw dewis a fydd y broses yn cael ei chyflawni'n fewnol neu a fydd hyn yn rhan o gytundeb ffurfiol y protocol ar atgyfeirio (h.y. ar ôl atgyfeirio'r achos, asiantaeth y partner fydd yn cynnal yr asesiad risg ffurfiol).

Delio â risg o niwed y mae cleient sy'n oedolyn yn ei hwynebu ar y pryd

Fel y nodwyd uchod, dylid creu llwybr gofal syml ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau arbenigol wrth gynllunio ar gyfer "Gofyn a Gweithredu". Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd angen cymryd camau ar unwaith i ddiogelu'r person sydd wedi datgelu cam-drin yn hytrach na dilyn y protocol ar atgyfeirio.

Os bydd cleient yn datgelu profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, bydd angen i staff ystyried a yw'r person sydd wedi'i ddatgelu'n wynebu risg o niwed ar y pryd; a oes bygythiad ar y pryd i fywyd y person sydd wedi datgelu'r cam-drin neu bosiblwydd cryf ar y pryd ei fod mewn perygl o gael niwed difrifol. A oes angen meddygol brys ar y pryd neu anaf sy'n galw am sylw brys?

Os bydd gweithiwr proffesiynol yn credu bod y wybodaeth a gafodd yn dangos bod y cleient neu rywun sy'n gysylltiedig ag ef mewn perygl ar y pryd neu'n wynebu risg ar y pryd, yna dylai ddilyn ei weithdrefnau diogelu. Dylai'r rhain gynnwys cysylltu â'r heddlu ar 999 a chychwyn gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant/diogelu oedolion.

Mae asesiad risg yn broses sy'n ystyried beth yw'r canlyniadau posibl i berygl neu fgygythiad sydd wedi'i adnabod, ar sail barn a'r wybodaeth sy'n hysbys.⁶ Mae hyn hefyd yn cael ei alw'n farn glinigol strwythuredig am sefyllfa'r cleient⁷ neu'n asesiad actwaraidd a barn broffesiynol.

Mae prosesau adnabod ac asesu risg yn cael eu defnyddio'n aml mewn rhannau o'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Maent yn ymwneud yn benodol â'r perygl y bydd rhywun sydd wedi profi trais a cham-drin yn dioddef trais a cham-drin pellach a difrifoldeb posibl y cam-drin hwnnw.

Bydd Rhestr Wirio Risg yn rhoi'r gallu i adnabod a chofnodi risgiau sy'n cael eu cydnabod yn gyffredinol, yn hytrach na chynnal asesiad trwyadl o sefyllfa benodol y cleient. Mae'r Rhestr Wirio yn offeryn syml a chyson i'w ddefnyddio gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda dioddefwyr er mwyn eu helpu i ddechrau adnabod y risg y mae eu cleient yn ei hwynebu a chynnig gwasanaethau priodol, perthnasol. Bydd yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n arfer y broses "Gofyn a Gweithredu" yn gallu defnyddio'r offeryn yn fedrus i gynnig gwasanaeth ar sail risg ar y cyfle cynharaf.

Drwy ddefnyddio'r un Rhestr Wirio Risg yn gyson ar draws y rhanbarth, bydd y dioddefwr yn fwy tebygol o gael ymateb priodol ac felly o gael sylw i'r risgiau y mae'n eu hwynebu drwy ddefnyddio meini prawf cyffredin a themau cyffredin am fathau o risg. Mae'r Rhestr Wirio Risg hefyd yn offeryn atgyfeirio sy'n cynnal proses y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ar gyfer y rheini sydd mewn perygl mawr o gael niwed difrifol o ganlyniad i gam-drin domestig.

Mae anghenion y cleient yng nghyswllt ei ddiogelwch ar y pryd ac unrhyw risg sydd wedi'i chreu gan y datgeliad a'r ymwneud gan wasanaethau ar ôl hynny i gael eu diwallu un ai gan y gweithiwr proffesiynol y rhoddwyd y datgeliad iddo neu gan gydweithwyr priodol.

Bydd yn bwysig cynnig cyfle i'r cleient gymryd rhan mewn asesiad manwl o'r risg y mae'r camdriniwr yn ei hachosi i'r cleient. Dylid rhoi'r cyfle hwn i'r cleient mewn ffordd effeithlon ac ar unwaith os gellir, er mwyn ymgysylltu â'r cleient yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Dylech ystyried a ydych yn bwriadu i ymarferwyr eich awdurdod perthnasol gynnwys y dull adnabod risg yn y broses fewnol ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" (h.y. a fydd y person sy'n gwneud yr ymholiad wedi'i dargedu hefyd yn llenwi Rhestr Wirio Risg) neu a fyddwch yn sefydlu protocol ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau arbenigol a fydd yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn yn ogystal â chynllunio ar gyfer rheoli risg.

Dylech ystyried yr opsiynau hyn i'w cynnwys mewn protocolau o'r fath neu i'w hategu:

- cyd-leoli gwasanaethau er mwyn cynnwys gweithwyr proffesiynol arbenigol mewn timau anarbenigol;
- gweithiwr sy'n cyflawni rôl fwy mewn timau ar ôl derbyn hyfforddiant uwch ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn neilltuo amser i helpu cydweithwyr i adnabod risg;

- asiantaethau arbenigol lleol sy'n darparu gwasanaethau galw heibio, clinigau neu gymorthfeydd mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus;
- prosesau clir ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau arbenigol lleol, sy'n amlinellu'r disgwyliadau o ran cyfnodau cysylltu (e.e. sicrwydd am ymgais i gysylltu o fewn 24 awr);
- defnyddio Llinell Gymorth Byw Heb Ofn – un ai drwy ddarparu cyfle i ffonio ar unwaith neu drefnu i'r llinell gymorth alw'r cleient pan fo'n gyfleus iddo.

Mae'n bwysig bod y protocol ar atgyfeirio yn cynnwys opsiynau priodol i oed ac opsiynau ar gyfer y rheini sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar wasanaethau, neu'n amharod i wneud hynny. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn galw am ymgysylltu pendant a rhagweithiol â chleientiaid.

f. Protocol Rhannu Gwybodaeth sydd wedi'i warantu gan WASPI sy'n disgrifio sut y bydd gwybodaeth sensitif, bersonol a geir drwy roi "Gofyn a Gweithredu" ar waith yn cael ei rheoli a'i storio

Bydd y broses "Gofyn a Gweithredu" yn sicr o arwain at ddatgelu gwybodaeth bersonol a sensitif ac, felly, at y gofyniad i'r gweithiwr proffesiynol benderfynu a ddylid rhannu'r wybodaeth hon wedyn ac a yw'n gyfreithlon ei rhannu. Gall y penderfyniadau hyn fod yn anodd ac maent yn galw am ymateb penodol sy'n effeithiol ac yn ofalgar, wedi'i seilio ar brotocolau clir ar atgyfeirio a gweithredu rhwng asiantaethau, arweinyddiaeth effeithiol, cymorth gan reolwyr, a dealltwriaeth dda o ddeddfwriaeth ar Ddiogelu Data.

Mae dwy agwedd ar y gofyniad am reoli mewn perthynas â chyfrinachedd cleientiaid, diogelu data a rhannu gwybodaeth:

1. Creu amgylchedd lle mae'r fframwaith cyfreithiol a'r gofynion penderfynu yn cael eu hegluro mewn prosesau, protocolau a chanllawiau;
2. Darparu cymorth gan reolwyr "yn y fan a'r lle" i'r rheini sy'n arfer y broses "Gofyn a Gweithredu" ac ystyried penderfyniadau penodol.

Dylai awdurdodau perthnasol brosesu gwybodaeth yn unol â'r fframwaith cyfreithiol perthnasol. Hefyd, mae'n bosibl y bydd awdurdodau perthnasol am ystyried dogfennau am sectorau penodol (e.e. egwyddorion gwarcheidwaid Caldicott) a all fod o gymorth i ddeall y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth. Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cael ei fabwysiadu yng nghyfraith y DU o fis Mai 2018. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn awgrymu y dylai pob corff cyhoeddus baratoi ar gyfer ei weithredu.

Mae fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) wedi'i lunio i hwyluso dulliau cyfreithlon o rannu gwybodaeth bersonol. Mae'n gwneud hyn drwy bennu gofynion a mecanweithiau cytunedig ar gyfer cyfnewid gwybodaeth bersonol rhwng yr holl asiantaethau perthnasol.

Mae fframwaith WASPI yn darparu dau allbwn craidd: set gyffredin o egwyddorion a safonau i'w dilyn gan sefydliadau wrth rannu gwybodaeth (a elwir yn Gytundeb), a

chreu Protocolau Rhannu Gwybodaeth i'w cyrchu a'u defnyddio at ddibenion penodol.

Mae fframwaith WASPI yn gyson â Chod Ymarfer y Comisiynydd Gwybodaeth ar Rannu Data a gofynion eraill mewn deddfwriaeth, safonau a pholisïau. Mae gwaith sylweddol wedi'i gyflawni mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r fframwaith felly mae'n adnodd defnyddiol ar gyfer arwain ar draws y sector cyhoeddus.

Er bod protocolau rhannu data yn offer defnyddiol, mae'n bwysig nodi nad ydynt yn dileu'r angen i sicrhau bod unrhyw wybodaeth a rennir yn cael ei rhannu'n gyfreithlon.

Mae'n bosibl y gelwir ar y rheini sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell neu oruchwylio i helpu gweithwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau mewn achosion penodol. Mewn achosion o'r fath, dylid dilyn y gofynion cyfreithiol perthnasol a dylent gael eu hadlewyrchu ym mholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad. Dylai rheolwyr a goruchwylwyr fod ar gael i helpu a chynghori cydweithwyr yn ystod y broses penderfynu yn unol â deddfwriaeth ar Ddiogelu Data. Bydd yn bwysig hefyd fod "hyrwyddwyr" sydd wedi'u hyfforddi yn ôl gofynion grŵp 3 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cynghori ar benderfyniadau.

Mae'n bwysig bod polisïau/protocolau'r sefydliad ar ddiogelu data, rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd yn cael eu diweddar, yn adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol perthnasol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dylent egluro sut y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau perthnasol ac i ba ddiben. Bydd yn bwysig bod gofynion y polisïau hyn yn cael eu cyfleu'n glir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddyletswydd cyfrinachedd a'r terfynau arni. Bydd angen cydgysylltu'n agos â thimau cyfreithiol a thimau rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod prosesau priodol ar waith i reoli data personol yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

g. Set ddata sylfaen sy'n ymwneud â datgelu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y safleoedd mabwysiadu cynnar cyn rhoi "Gofyn a Gweithredu" ar waith

Bydd set ddata o'r fath yn gymorth i ddeall lefelau presennol y datgelu yn yr awdurdod perthnasol. Bydd y data hyn yn dangos ble mae angen gwella ac yn darparu llinell sylfaen i'r sefydliad ar gyfer asesu'r cyfraddau datgelu a geir o ganlyniad i gyflwyno "Gofyn a Gweithredu".

Dylai rhanbarthau/sefydliadau hefyd geisio sefydlu:

h. Cynllun casglu a monitro data a fydd yn cynnwys y canlynol (lle bynnag y bo modd):

- Y nifer a'r ganran yn y grŵp cleientiaid y nodwyd eu bod yn amlygu dangosydd o'r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- Y nifer a'r ganran yn y grŵp cleientiaid y gofynnwyd iddynt a oeddent yn profi math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Nifer a chanran y rheini y gofynnwyd y cwestiwn iddynt a oedd wedi datgelu'r profiad.
- Nifer a chanran y rheini y gofynnwyd y cwestiwn iddynt nad oeddent wedi datgelu'r profiad.
- Yr atgyfeiriad neu'r canlyniad gwasanaeth i'r rheini y gofynnwyd y cwestiwn iddynt a oedd wedi datgelu'r profiad, ac i unrhyw blant neu oedolion cysylltiedig.
- Yr atgyfeiriad neu'r canlyniad gwasanaeth i'r rheini y gofynnwyd y cwestiwn iddynt nad oeddent wedi datgelu'r profiad.

Mae'n bosibl na fydd modd casglu'r holl ddata uchod oherwydd cyfyngiadau'r systemau casglu data presennol ond fe ddylech ystyried beth sy'n bosibl ac a oes angen unrhyw brosesau newydd i gasglu data er mwyn monitro effaith "Gofyn a Gweithredu".

Monitro effaith "Gofyn a Gweithredu"

Drwy roi "Gofyn a Gweithredu" ar waith, dylid adnabod mwy o'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai hynny arwain hefyd at ganlyniadau cadarnhaol i'r rheini sydd wedi'u hadnabod, yn gysylltiedig ag adnabod achosion yn gynharach, atal trais, diogelu, atgyfeirio effeithiol a lleihau risg.

Mae'n bwysig bod canlyniadau o'r fath yn cael eu monitro a, lle bynnag y bo modd, fod profiad y cleient yn cael ei gynnwys yn y monitro hwnnw. Yn y tymor byr, mae'n bosibl y bydd angen casglu data ar wahân i fesur effaith "Gofyn a Gweithredu" tra bydd systemau monitro'n cael eu diweddarau. Yn y tymor hwy, dylid ystyried sut i integreiddio'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â "Gofyn a Gweithredu" â systemau ehangach ar gyfer mesur canlyniadau fel y Set Ddata Adrannau Argyfwng, Mesurau Profiadau a Adroddwyd gan Gleifion a Mesurau Canlyniadau a Adroddwyd gan Gleifion a sut i ystyried y setiau data hyn gyda'i gilydd.

Dylid gwerthuso'r broses "Gofyn a Gweithredu" ar sail y nodau sydd wedi'u disgrifio'n gynharach yn y canllawiau hyn. Bydd hyn yn galw am fonitro data perthnasol ac adolygu canlyniadau ac allbynnau ehangach.

Ar ôl adnabod unrhyw achos o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dylai hynny arwain at ddarparu ymyriadau a lefelau cymorth priodol a, dros gyfnod hirach, at ostyngiad yn nifer yr achosion pellach o drais a cham-drin a'r canlyniadau i iechyd sy'n gysylltiedig â hyn.

Yn y tymor agos, dylai camau i gryfhau'r ymateb gan weithwyr proffesiynol rheng flaen mewn awdurdodau perthnasol i "Gofyn a Gweithredu" sicrhau'r canlynol:

- **Adnabod mwy o'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

Ystyriaethau monitro:

- ✓ A ellir cael data llinell sylfaen am ddatgeliadau o'r math hwn?
- ✓ A oes system rheoli achosion addas gan bob sefydliad i gofnodi datgeliadau, cyfrif pa mor aml y mae dangosyddion yn cael eu hadnabod, pa mor aml y mae holi wedi'i dargedu'n cael ei ddefnyddio a pha ganran o'r cwestiynau sy'n arwain at ddatgelu?

- **Mwy o atgyfeiriadau ac ymyriadau ar gyfer y rheini sydd wedi'u hadnabod i ddarparu cymorth arbenigol ar sail anghenion y cleient a'r risg y mae'n ei hwynebu.**

Ystyriaethau monitro:

- ✓ Sut mae camau'n cael eu cymryd ar ôl cofnodi datgeliad?
- ✓ A yw'r opsiynau ar gyfer atgyfeirio a ddewiswyd yn cael eu monitro a sut y bydd y canlyniadau i'r cleient yn cael eu monitro ar ôl hynny?
- ✓ Sut y gellir defnyddio'r data sydd gan Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) lleol, ac unrhyw fforymau lleol eraill, i asesu a yw nifer yr atgyfeiriadau i'r broses o'r holl awdurdodau perthnasol yn cynyddu?

- **Diwylliant ar draws y gwasanaeth cyhoeddus lle mae'r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddeall, lle mae datgelu'n cael ei dderbyn a'i hwyluso, a chymorth priodol a chyson yn cael ei ddarparu.**

Ystyriaethau monitro:

- ✓ A yw'r holl wasanaethau lleol wedi mabwysiadu polisi gweithle ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?
- ✓ A yw data dienw o ddatgeliadau a wnaed o dan y polisiau hyn yn cael eu monitro?

- **Gwell ymateb i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ynghyd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.**

Ystyriaethau monitro:

- ✓ Ar bwynt y datgelu, a yw unrhyw wybodaeth bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cydfodoli â chamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl yn cael ei nodi?
- ✓ A yw'r rhan a gymerir gan asiantaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl mewn fforymau amlasiantaeth ac atgyfeiriadau gan asiantaethau o'r fath i'r fforymau yn cael eu cofnodi?

- **Ymgysylltu'n rhagweithiol â'r rheini sy'n guddiedig ac yn agored i niwed mor gynnar â phosibl yn hytrach na dim ond ymgysylltu mewn ymateb i'r rheini sydd mewn argyfwng neu mewn perygl o gael niwed difrifol ar y pryd.**

Ystyriaethau monitro:

- ✓ A yw hyd y berthynas ar bwynt y datgelu yn cael ei nodi?
- ✓ A yw lefel y risg ar bwynt y datgelu yn cael ei nodi?
- ✓ A yw mynediad cyson at wasanaeth sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei fonitro?

- **Gwell ymateb i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu rôl fel rhieni ac wrth ddiogelu a hyrwyddo llesiant eu plant.**

Ystyriaethau monitro:

- ✓ Ar bwynt y datgelu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ynghyd â chamddefnyddio sylweddau, a yw anghenion unrhyw blant dibynnol yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw blentyn sydd mewn perygl?
- ✓ A yw'r rhan a gymerir gan wasanaethau cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cymdeithasol plant mewn fforymau amlasiantaeth ac atgyfeiriadau gan asiantaethau o'r fath i'r fforymau yn cael eu monitro?

i. Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Bydd hefyd yn bwysig casglu gwybodaeth ddemograffig ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.

Mae'n bwysig bod data sy'n ymwneud â datgelu yn cael eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r boblogaeth leol. Ystyriwch a oes bylchau o ran datgelu – mewn perthynas â grwpiau lleiafrifol, er enghraifft – a rhowch fesurau ar waith i helpu'r gweithlu i gofnodi mwy o'r achosion hyn mewn grwpiau sydd wedi'u pennu.

Gwersi a ddysgwyd o'r safleoedd mabwysiadu cynnar

Roedd cam cynllunio'r gwaith wedi cymryd tua chwe mis ar y ddau safle.

3. Hyfforddi

Mae'r rhaglen hyfforddi ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" yn cynnwys rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr sy'n cael ei rhedeg gan ddarparwr a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (Cymorth i Ferched Cymru) a hyfforddiant lleol parhaus sy'n cael ei ddarparu gan staff sydd wedi dilyn y rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr.

Mae'r hyfforddiant ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" yn ymwneud â grwpiau 2 a 3 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Grŵp 2 – Hyfforddiant i hyfforddi staff i "Ofyn a Gweithredu"

Darperir yr hyfforddiant hwn gan Gymorth i Ferched Cymru sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a darparu'r rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr. Mae'r cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr wedi cael ei achredu gan Agored Cymru. Cyflwynir yr hyfforddiant dros gyfnod o 2 ddiwrnod ac mae'n cynnwys gofyniad i lenwi llyfr gwaith a fydd yn cymryd rhwng 15 ac 20 awr i'w gyflawni.

Grŵp 3 – Hyfforddiant i hyfforddi staff i hyfforddi hyrwyddwyr "Gofyn a Gweithredu"

Darperir yr hyfforddiant hwn gan Gymorth i Ferched Cymru sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a darparu'r rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr. Mae'r cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr wedi cael ei achredu gan Agored Cymru. Cyflwynir yr hyfforddiant dros gyfnod o 1 diwrnod ac mae'n cynnwys gofyniad i lenwi llyfr gwaith a fydd yn cymryd rhwng 15 ac 20 awr i'w gyflawni.

Grŵp 2 – Hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" sy'n digwydd yn yr awdurdod perthnasol

Bydd gweithwyr yr awdurdod perthnasol sydd wedi cwblhau'r cwrs grŵp 2 ar Hyfforddi'r Hyfforddwyr (uchod) yn dod yn rhan o gonsortiw m hyfforddi rhanbarthol a, gyda'i gilydd, bydd y tîm hwn yn cyflwyno hyfforddiant lleol i'w cydweithwyr i'w paratoi i ddarparu "Gofyn a Gweithredu".

Gallant ddarparu'r hyfforddiant hwn mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol lleol sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y consortiw m hyfforddi rhanbarthol (gall ardaloedd lleol wahodd gwasanaethau arbenigol lleol i gymryd rhan).

Mae gwasanaethau arbenigol ledled Cymru eisoes wedi dilyn cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr "Gofyn a Gweithredu" i sicrhau eu bod yn barod i helpu i gyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yn lleol.

Nid yw'r hyfforddiant hwn wedi cael ei achredu felly nid oes angen llenwi llyfr gwaith ar ôl cwblhau'r hyfforddiant.

Gellir darparu'r hyfforddiant hwn mewn sesiwn hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn.

Grŵp 3 – Hyfforddiant i hyrwyddwyr "Gofyn a Gweithredu" sy'n digwydd yn yr awdurdod perthnasol.

Bydd gweithwyr yr awdurdod perthnasol sydd wedi cwblhau'r cwrs grŵp 3 ar Hyfforddi'r Hyfforddwyr (uchod) yn dod yn rhan o gonsortiw m hyfforddi rhanbarthol a, gyda'i gilydd, bydd y tîm hwn yn cyflwyno hyfforddiant lleol i'w cydweithwyr i'w paratoi i fod yn hyrwyddwyr "Gofyn a Gweithredu".

Gallant ddarparu'r hyfforddiant hwn mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol lleol sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y consortiw m hyfforddi rhanbarthol (gall ardaloedd lleol wahodd gwasanaethau arbenigol lleol i gymryd rhan).

Mae gwasanaethau arbenigol ledled Cymru eisoes wedi dilyn y cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar gyfer hyrwyddwyr "Gofyn a Gweithredu" i sicrhau eu bod yn barod i helpu i gyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yn lleol.

Nid yw'r hyfforddiant hwn wedi cael ei achredu felly nid oes angen llenwi llyfr gwaith ar ôl cwblhau'r hyfforddiant.

Darperir yr hyfforddiant hwn mewn sesiwn diwrnod llawn.

Mae'n bwysig bod y consortia hyfforddi rhanbarthol yn cynnwys hyfforddwyr sy'n gallu darparu hyfforddiant grŵp 2 ("Gofyn a Gweithredu") a hyfforddiant grŵp 3 (hyrwyddwyr "Gofyn a Gweithredu"). Mae'n ofynnol bod y rheini y disgwylir iddynt ddarparu'r hyfforddiant grŵp 3 (hyrwyddwyr "Gofyn a Gweithredu") hefyd wedi cwblhau'r cwrs grŵp 2 ar Hyfforddi'r Hyfforddwyr ("Gofyn a Gweithredu").

Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Cyhoeddwyd "Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Canllawiau statudol o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006" ym Mawrth 2016.

Grŵp 2 yw'r grŵp o weithwyr proffesiynol a fydd yn "Gofyn a Gweithredu". Mae'r adran hon o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn amlinellu'r deilliannau dysgu a chymwyseddau sy'n sail i egwyddor "Gofyn a Gweithredu".

Grŵp 3 yn y Fframwaith yw'r rheini sy'n gweithio'n agos gyda theuluoedd sy'n profi mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu rôl swydd bresennol (ond nad ydynt yn arbenigo yn y maes hwn) a'r rheini sy'n cyflawni rôl yr hyrwyddwr dros eu sefydliad. Mae'r adran hon o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn amlinellu'r deilliannau dysgu a chymwyseddau sy'n helpu'r grŵp hwn i gynorthwyo cydweithwyr a ddylai "Ofyn a Gweithredu" ac i ddarparu cymorth gwell i deuluoedd.

Nod

Y nod ar gyfer y ddau grŵp yw sicrhau bod grŵp mawr o weithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus i ddarparu "Gofyn a Gweithredu" a bod grŵp llai o weithwyr proffesiynol yn meddu ar wybodaeth uwch i gynorthwyo'r rheini a fydd yn darparu

“Gofyn a Gweithredu” mewn perthynas â phenderfynu, adolygu achosion ac asesu teuluoedd cyfan.

Darparu

Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn cael ei gynnig i tua 35,000 o weithwyr proffesiynol rhwng 2015 a 2020.

Fel yr eglurwyd uchod, bydd hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn cael ei gynnig drwy fodel lledaenu rhanbarthol sy’n gwneud defnydd o sgiliau ac arbenigedd ymarferwyr lleol ac yn darparu model cynaliadwy i ddarparu hyfforddiant yn barhaus.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu’r pecyn hyfforddi (sy’n cynnwys deunyddiau, adnoddau a sgriptiau) a gaiff ei ddosbarthu gan hyfforddwyr lleol. Mae hyn yn gymwys i grwpiau 2 a 3 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Datblygwyd y pecyn hyfforddi mewn partneriaeth â’r safleoedd a oedd wedi mabwysiadu “Gofyn a Gweithredu” yn gynnar ac mae’n cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau sy’n addas ac yn ymwneud yn benodol â phob un o’r awdurdodau perthnasol.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cael ei ariannu hefyd i ddarparu’r cwrs Hyfforddi’r Hyfforddwyr ym mhob rhanbarth, yn rhan o raglen genedlaethol sy’n cael ei chyflwyno’n raddol, ac i hwyluso’r gwaith o asesu ac achredu’r holl ddysgwyr.

Bydd “Gofyn a Gweithredu” yn cael ei gyflwyno yn holl ranbarthau Cymru rhwng 2015 a 2020. Bydd yr ardaloedd hynny sy’n derbyn yr hyfforddiant yn hwyrach yn y cyfnod hwn yn gallu cymryd rhan mewn gweithdy rhanbarthol i’w helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno “Gofyn a Gweithredu”.

Ein bwriad yw y bydd hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn rhan barhaol o gynlluniau hyfforddi rhanbarthol er mwyn cwrdd ag anghenion a bennwyd yn lleol, delio â throsiant staff yn y proffesiynau sy’n cael eu hyfforddi, a chaniatáu hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol a sefydliadol. Ar ôl cychwyn cyflwyno “Gofyn a Gweithredu” bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau datblygu mathau dichonol o hyfforddiant diweddarau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

4. Cyflwyno

Er mwyn rhoi “Gofyn a Gweithredu” ar waith bydd angen cyflawni cynllun hyfforddi “Gofyn a Gweithredu” y sefydliad drwy’r consortiwm hyfforddi rhanbarthol. Dylid dechrau ar y gwaith hwn yn fuan ar ôl darparu’r cwrs Hyfforddi’r Hyfforddwyr i aelodau cyntaf y consortiwm.

Dylai’r rhaglen hyfforddi gael rheoli gan y swyddog arweiniol ar gyflwyno “Gofyn a Gweithredu” a dylai gael ei monitro drwy’r grŵp llywio. Rydym yn argymhell bod y timau sy’n gyfrifol am ddatblygu’r gweithlu neu ddysgu a datblygu yn cymryd rhan o’r dechrau yn y gwaith cynllunio ar gyfer cyflwyno “Gofyn a Gweithredu” gan mai nhw sy’n gyfrifol am y prosesau ar gyfer darparu hyfforddiant o’r fath a gallant sicrhau bod y trefniadau cyflwyno wedi’u cynnwys yn systemau’r sefydliad.

Yn achos gweithwyr proffesiynol sy’n cael blaenoriaeth wrth ddarparu hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu”, gwelir yn aml fod angen rhoi rhybudd digonol iddynt am ddyddiadau hyfforddi er mwyn iddynt drefnu i fod yn bresennol ac er mwyn i’w rheolwyr fonitro capasiti yn eu timau. Felly dylid cylchredeg cynllun hyfforddi’r sefydliad a’r dyddiadau hyfforddi posibl drwy’r flwyddyn cyn dechrau cyflwyno’r hyfforddiant. Gall fod yn fuddiol ystyried ffyrdd o integreiddio hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” â chyfleoedd eraill sy’n gysylltiedig â dysgu a datblygu fel hyfforddiant diogelu a diwrnodau datblygu, ymarfer neu sgiliau.

Mae’r modelau ar gyfer y consortia a lledaenu hyfforddiant ar lefel ranbarthol yn caniatáu hyblygrwydd o ran darparu. Rydym yn argymhell bod adrannau, is-adrannau a thimau, wrth gyflawni cynllun hyfforddi’r sefydliad, yn cael hyblygrwydd i un ai cymryd rhan mewn trefniadau cyflwyno ar draws y sefydliad neu’n gwneud defnydd o’u haelodau staff eu hunain (ar ôl eu hyfforddi drwy’r consortiwm rhanbarthol) i ddarparu’r hyfforddiant yn fewnol a’i lledaenu yn y ffordd sy’n fwyaf addas yn ôl argaeledd a capasiti’r tîm hwnnw.

Dylid monitro cyrhaeddiad yr hyfforddiant bob chwarter blwyddyn drwy’r grŵp llywio er mwyn sicrhau bod yr ymrwymadau yng nghynllun hyfforddi’r sefydliad yn cael eu cyflawni a bod cynlluniau cyflawni’n cael eu haddasu lle bo angen.

Helpu i gyflwyno hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu”

Mae model Hyfforddi’r Hyfforddwyr ar gyfer lledaenu hyfforddiant yn ffordd effeithiol o gyrraedd nifer mawr o bobl mewn cyfnod cymharol fyr ac mae’n gosteffeithiol i’r diben hwn. Er hynny, mae’r model yn cynnig heriau hefyd a dylid ystyried y rhain wrth weithredu.

Mae’r model yn creu’r risg y bydd cynnwys allweddol yn cael ei lastwreiddio wrth gyflwyno’r hyfforddiant o gam i gam ac felly mae’r broses achredu yn un drylwyr. Gobeithir y bydd y mesur hwn i sicrhau ansawdd yn cryfhau gwybodaeth yr hyfforddwyr am “Gofyn a Gweithredu”. Fodd bynnag, ni fydd yr hyfforddwr yn hyderus ym mhob achos yn ei allu i gyflwyno’r hyfforddiant ar unwaith neu i gyflwyno pob agwedd ar yr hyfforddiant.

Un o'r gwersi a ddysgwyd o'r safleoedd mabwysiadu cynnar oedd bod nifer o'r rheini a oedd wedi cwblhau'r cyrsiau Hyfforddi'r Hyfforddwyr yn hyderus yn eu gallu i hyfforddi ar y broses o ddarparu "Gofyn a Gweithredu" yn eu maes proffesiynol eu hunain ond yn teimlo bod ganddynt lai o allu i ymateb i gwestiynau cyffredinol a oedd yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Er mwyn meithrin hyder ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru i "Ofyn a Gweithredu", mae angen hyfforddiant sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol ofyn cwestiynau a rhannu barn sy'n galw am atebion gwybodus. I sicrhau bod modd darparu hyfforddiant o'r fath, rydym yn argymhell eich bod yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol lleol ac yn eu cynnwys yn eich consortiwm hyfforddi rhanbarthol.

Wrth gyflwyno'r hyfforddiant yn y blynyddoedd cyntaf, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu swm bach o gyllid i'ch helpu i gynnwys partneriaid arbenigol yn eich consortiwm hyfforddi rhanbarthol. Mae'r cyllid hwn i'w ddefnyddio i dalu am rai o'r costau am gynnwys arbenigwyr yn eich gwaith. Y gobaiith ar gyfer y tymor hwy yw y bydd hyfforddwyr sydd wedi'u hyfforddi'n fewnol yn dod yn fwy hyderus ac na fydd angen pellach am y cyllid hwn.

Rhoddir gwybod i ardaloedd am y cyllid sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a bydd modd ei hawlio fel ôl-daliadau bob chwarter blwyddyn.

Gobeithir y bydd y dull hwn o weithredu'n darparu amrywiaeth o arbenigedd a gwybodaeth yn yr ystafell hyfforddi, yn gwella ansawdd yr hyfforddiant sydd ar gael ac yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng gwasanaethau statudol ac arbenigol.

Adrodd ar weithredu "Gofyn a Gweithredu"

Fel yr eglurwyd uchod, dylai hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" fod yn rhan o gynllun hyfforddi eich sefydliad neu ranbarth. Gofynnir i chi adrodd ar y cynllun hwn bob chwarter blwyddyn a chyfeirio at y gwaith yn yr adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan "Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Canllawiau statudol o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006".

Alinio "Gofyn a Gweithredu" â phrosesau diogelu statudol

Diogelu oedolion sydd mewn perygl

Mae pob aelod staff o dan ddyletswydd gofal foesechol a phroffesiynol i weithredu os bydd:

- yn dyst i gam-drin;
- yn cael gwybodaeth am gam-drin, amheuan o gam-drin neu bryderon am ofal neu driniaeth oedolyn neu blentyn sydd mewn perygl; neu

- yn amau neu'n pryderu am y posibilrwydd o gam-drin neu ofal amhriodol.

Mae hawl gan oedolion sydd mewn perygl i gael eu cynnwys ym mhob agwedd o'r broses amddiffyn oedolion o'r dechrau i'r diwedd ac i wneud penderfyniadau ynghylch eu diogelwch a'u lles, oni bai fod asesiad wedi dangos nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniad penodol.

Oedolion mewn perygl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Gall y profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn fwy cymhleth a'i effaith yn fwy difrifol yn achos y rheini sydd ag anghenion eraill am ofal a chymorth.

Mae pobl hŷn â dementia yn fwy tebygol o gael eu cam-drin na phobl hŷn sydd heb yr anhwylder hwn.⁸ Felly mae'n bwysig cydnabod y gall pobl â dementia fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Mae data sy'n codi o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig yn dangos bod nifer cynyddol o bobl hŷn (60+ oed) yn ddiodefwyr dynladdiadau domestig. Yn 2013/14 roedd 20 o ddiodefwyr benywaidd a 5 diodefwyr gwrywaidd yng Nghymru a Lloegr a oedd yn 60+ oed, sef 21.3% o'r holl Adolygiadau Dynladdiadau Domestig. Mae rhagor o wybodaeth am helpu pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig yn "Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru".

Rydym hefyd yn gwybod bod anabledd yn ei gwneud yn fwy tebygol i rywun gael ei gam-drin. Mae menywod anabl yn ddwywaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig na menywod nad ydynt yn anabl.⁹

Mae'r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain at effeithiau cymdeithasol difrifol a negyddol ar iechyd diodefwyr sy'n oedolion, ac mae canlyniadau cydnabyddedig yng nghyswllt iechyd meddwl, beichiogrwydd, anhwylderau bwyta, iechyd atgenhedlol a llesiant corfforol; mae hefyd yn gysylltiedig â digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau.

Yn achos oedolion sydd ag anghenion eraill am ofal a chymorth sydd hefyd yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae angen ymateb amlasiantaethol i sicrhau bod camau pendant yn cael eu cymryd i ddarparu cymorth i ddiodefwyr gan ddelio'n effeithiol yr un pryd â throeddwy. Mae hyn yn galw am alinio a chyfathrebu rhwng Prosesau Diogelu Oedolion a phrosesau amlasiantaeth sy'n cael eu defnyddio fel arfer i ddelio â mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (fel Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg neu Ganolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH)).

Lle mae'r person sydd wedi'i amau o gyflawni cam-drin domestig yn oedolyn mewn perygl, dylai'r heddlu gydweithio'n agos, wrth arwain yr ymchwiliad troseddol, â gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill sy'n bartneriaid, gan gynnwys sefydliadau arbenigol yn y trydydd sector.

Diogelu plant

Bydd “Gofyn a Gweithredu” yn helpu gweithwyr proffesiynol drwy wella eu gallu i adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn gyffredinol mae’r dangosyddion yn ymwneud â phrofiad oedolion ond mae tystiolaeth yn dangos bod nifer mawr o bobl ifanc yn profi problemau tebyg ac yn wynebu lefelau risg tebyg. Felly mae’n debygol y bydd gweithredu “Gofyn a Gweithredu” gan weithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn arwain at adnabod mwy o blant a phobl ifanc sy’n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hefyd yn debygol y bydd gweithredu “Gofyn a Gweithredu” gydag oedolion yn arwain at adnabod mwy o blant a phobl ifanc sy’n profi effaith neu’n dystion i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn emosiynol/seicolegol.

Felly mae’n bwysig bod pob aelod staff yn cael ei hyfforddi ac yn dysgu’r sgiliau sydd eu hangen i adnabod problemau sy’n ymwneud â diogelu ac ymateb iddynt. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant amddiffyn plant at lefel sy’n gyson â’i rôl a’i gyfrifoldebau ac yn unol â’r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.

Nid yw “Gofyn a Gweithredu” yn cyflwyno unrhyw weithdrefnau newydd ar gyfer diogelu nac yn cymryd lle unrhyw weithdrefnau diogelu. Os bydd gweithiwr proffesiynol, wrth arfer proses “Gofyn a Gweithredu”, yn adnabod plentyn sydd mewn perygl, rhaid iddo ddilyn ei gyfrifoldebau statudol sydd wedi’u hamlinellu isod.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cryfhau’r mesurau diogelu drwy gyflwyno dyletswydd newydd ar ‘bartneriaid perthnasol’ i roi gwybod i’r Awdurdod Lleol am rywun y mae lle i amau ei fod yn oedolyn sy’n wynebu’r risg o gam-drin neu esgeuluso. Mae’r Ddeddf yn diffinio plant ac oedolion “sy’n wynebu risg” ac yn cyflwyno dyletswydd ar bartneriaid perthnasol, fel y maent wedi’u diffinio yn y Ddeddf, i hysbysu’r Awdurdod Lleol am amheuan.

Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc sy’n Profi Effaith Cam-drin Domestig yn cyfeirio’n benodol at amddiffyn plant mewn cysylltiad â phryderon am blant sy’n dyst i gam-drin domestig neu’n ei brofi’n uniongyrchol a bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau drwy’r gwaith sydd i’w wneud ar y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.

Mae’r Codau Ymarfer a ddyroddwyd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu canllawiau ar ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant, gan gynnwys rhai ar ddelio ag achosion unigol.

Pobl ifanc mewn perthynas gamdriniol

Nodwyd bod trais dan law partner yn achos pryder mawr yng nghyswllt llesiant pobl ifanc. Bydd nifer sylweddol o bobl ifanc yn profi rhyw fath o drais dan law eu partner cyn dod yn oedolion.

- Mae tri chwarter y genethod sydd mewn perthynas yn profi trais emosiynol;
- Mae un rhan o dair ohonynt yn rhoi gwybod am drais rhywiol;
- Mae chwarter ohonynt yn profi trais corfforol;
- Mae hanner y bechgyn sydd mewn perthynas yn rhoi gwybod am drais emosiynol;
- Mae 18 y cant yn profi trais corfforol;
- Mae 16 y cant yn rhoi gwybod am drais rhywiol.¹⁰

Felly bydd nifer sylweddol o bobl ifanc yn profi rhyw fath o drais dan law eu partner cyn dod yn oedolion, a bydd nifer arwyddocaol ohonynt yn profi cam-drin difrifol.¹¹

Menywod ifanc rhwng 16 a 24 blwydd oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddiodef cam-drin domestig; mae un eneth ym mhob chwech yn rhoi gwybod am ryw fath o drais difrifol dan law partner. Mae menywod ifanc sy'n iau na deunaw mlwydd oed yn blant yn ôl diffiniad y gyfraith ac felly'n cael y cymorth, y gofal a'r amddiffyniad a ddarperir gan Awdurdodau Lleol o dan Ddeddf Plant 1989. Fodd bynnag, bydd y menywod ifanc hyn mewn perthnasoedd sy'n debygol o fod o'r math a geir rhwng oedolion – gallent fod mewn perthynas rywiol, gallent fod yn famau ac mae'n yn bosibl eu bod yn byw gyda'u partner. Yn ogystal â hyn, mae ymchwil yn awgrymu y bydd y cam-drin y maent yn ei brofi yn ddifrifol ac y bydd yn gwaethygu.¹²

Felly mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar y bobl ifanc hyn sydd wedi'i gydgyssylltu gan nifer o asiantaethau lleol gwahanol. Mae ymyriadau ar y cyd rhwng gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a'r sector arbenigol yn gallu bod yn ffordd effeithiol o ymateb i anghenion y person ifanc, a all fod yn gymhleth, ac o gyflawni eu dyletswydd statudol i'w amddiffyn. Dylid ystyried hyn wrth fabwysiadu'r broses "Gofyn a Gweithredu". Yn benodol, dylai arweinwyr mewn awdurdodau perthnasol:

- ystyried anghenion pobl ifanc mewn asesiadau anghenion strategol ac wrth gynllunio;
- gwneud trefniadau ffurfiol ar gyfer cydweithio agos ac effeithiol rhwng y fforymau cydweithredol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r fforymau sy'n diogelu plant;
- cynnwys gwasanaethau i bobl ifanc mewn partneriaethau a fforymau sy'n seiliedig ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn cynnwys arbenigedd ar ymddygiad ac anghenion y grŵp cleientiaid hwn ac ystyried materion ehangach sy'n effeithio'n fwy ar gyfartaledd ar bobl ifanc, fel gangiau, camfanteisio rhywiol, cam-drin seiber a thrais ar sail 'anrhydedd';
- sicrhau bod protocolau atgyfeirio sy'n canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnwys gwasanaethau penodol i bobl ifanc.

Sut i alinio "Gofyn a Gweithredu" â phrosesau statudol i ddiogelu plant

Mae'r dystiolaeth sydd o blaid cyflwyno "Gofyn a Gweithredu" wedi'i seilio'n bennaf ar brofiad oedolion, yn hytrach na phlant. Er hynny, mae tystiolaeth ar gael sy'n

tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng cam-drin plant a cham-drin domestig gan rieni ac yn ein helpu i ddeall dynameg y cam-drin dan law partner personol sy'n digwydd ym mherthnasoedd y bobl ifanc eu hunain.

Mae cyfrifoldebau statudol yn bod hefyd ar hyn o bryd sy'n ymwneud â'r perygl o niwed i blant. Wrth gymhwyso unrhyw broses "Gofyn a Gweithredu" at blant, rhaid gwneud hynny ar sail dyletswyddau diogelu presennol, gan ystyried y pwyntiau canlynol:

- Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl ifanc.
- Mae pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion diogelu a dylid eu trin felly.
- Mae ymyriadau ar y cyd rhwng gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu bod yn ffordd effeithiol o ymateb i anghenion y person ifanc, a all fod yn gymhleth, ac o gyflawni'r ddyletswydd statudol i'w amddiffyn.

Dyletswyddau statudol presennol sy'n ymwneud â diogelu plant

Mae adran 47 o Ddeddf Plant 1989 yn rhoi Awdurdodau Lleol o dan ddyletswydd i ymchwilio os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod plentyn sy'n byw, neu y ceir hyd iddo, yn eu hardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed arwyddocaol. O ganlyniad i hyn, rhaid iddynt ymchwilio yn ôl yr angen i'w galluogi i benderfynu a ddylent gymryd camau i ddiogelu'r plentyn neu hyrwyddo ei les.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer diogelu plant drwy roi partneriaid perthnasol o dan "ddyletswydd i hysbysu" newydd.

Dyletswydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg

Mae adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno 'dyletswydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg' ac yn dweud mai "plentyn sy'n wynebu risg" yw plentyn:

- a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; a
- b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth.

Os bydd gan "bartner perthnasol"³ sail resymol dros gredu bod plentyn, gan gynnwys plentyn sydd heb ei eni, yn wynebu risg, rhaid rhoi'r adroddiad i'r Awdurdod Lleol cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os oes pryderon ar y pryd am ddiogelwch plentyn neu am drosedd yn erbyn plentyn, dylai gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ddi-oed er mwyn gwarchod y plentyn/plant rhag y risg o gael niwed difrifol.

³ Fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 162 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae adran 128 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg.

Mae adran 126 o'r un Ddeddf yn dweud bod "oedolyn sy'n wynebu risg" yn oedolyn:

- a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio); ac
- c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso

Mae'n bwysig bod asiantaethau perthnasol a'u staff yn deall eu dyletswydd statudol i hysbysu'r awdurdod lleol lle mae sail resymol dros gredu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau statudol⁴ i weithwyr proffesiynol am yr hyn i'w wneud os ydynt yn pryderu am blentyn.

Ymateb i bryderon ynghylch diogelwch plant

Os oes amheuaeth bod plentyn yn cael ei gam-drin, rhaid hysbysu gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am hynny er mwyn ymchwilio i hynny'n unol â chanllawiau statudol. Ni ddylai awdurdodau perthnasol gynnal eu hymchwiliadau mewnol eu hunain ar gyfer amddiffyn plant: yn hytrach, dylent atgyfeirio eu pryderon.

Os yw ymarferydd yn pryderu am ddiogelwch plentyn, ond yn dymuno cael cyngor ychwanegol, dylai hyn fod ar gael gan ei asiantaeth ei hun neu gan wasanaethau cymdeithasol. Rhaid cofnodi unrhyw drafodaeth am les plentyn mewn ysgrifen, gan gynnwys nodyn o'r dyddiad a'r amser a'r bobl a gymerodd ran yn y drafodaeth. Ar ddiwedd y drafodaeth, dylid cael cytundeb clir a phenodol ar ba gamau a gymerir a chan bwy. Os penderfynir peidio â chymryd camau pellach, dylid cofnodi hyn hefyd mewn ysgrifen gan roi'r rhesymau dros y penderfyniad. Mae'n bwysig bod unrhyw aelod staff sy'n pryderu am les plentyn yn cofnodi ei bryderon, pa un a gymerir camau pellach neu beidio.

Ni ddylid byth ohirio camau sydd angen eu cymryd ar frys i amddiffyn plentyn am fod angen gofyn am gyngor.

Fe ellir ac fe ddylid rhannu'r pryderon hyn â gwasanaethau cymdeithasol drwy eu hatgyfeirio iddynt. Er na fydd pryderon yn arwain o reidrwydd at gychwyn ymchwiliad, byddant yn helpu i greu darlun, ynghyd â phryderon o ffynonellau eraill, sy'n awgrymu'r posibilrwydd bod plentyn yn cael niwed. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi datblygu protocolau sy'n pennu trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau

⁴ Bydd Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn cael ei ddisodli gan ganllawiau diwygiedig a gaiff eu dyroddi o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

cychwynnol gan wasanaethau lleol ac yn diffinio'r amgylchiadau a'r trothwyon sy'n berthnasol wrth ystyried a ddylid atgyfeirio plentyn i wasanaethau cymdeithasol.

Mewn achosion lle mae honiad neu amheuaeth o gam-drin gan weithiwr proffesiynol neu gyflogai unigol, dylai'r camau a gymerir fod wedi'u seilio hefyd ar weithdrefnau'r asiantaeth ei hun ar gam-drin gan weithwyr proffesiynol a chwythu'r chwiban.

Dylid atgyfeirio achosion i wasanaethau cymdeithasol cyn gynted ag y bydd problem, amheuaeth neu bryder ynghylch plentyn yn dod i'r amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, dylid atgyfeirio achosion i wasanaeth dyletswydd argyfwng y gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Cyflwynwyd dyletswydd orfodol i adrodd am achosion o FGM drwy Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Roedd Deddf Troseddau Difrifol 2015 wedi diwygio Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 drwy osod dyletswydd ar 'weithwyr proffesiynol a reoleiddir' i roi gwybod am achosion o FGM os byddant, wrth wneud eu gwaith, yn darganfod bod geneth sy'n iau na 18 mlwydd oed wedi cael triniaeth sydd wedi anffurfio ei horganau cenhedlu. O dan y ddyletswydd, mae'n ofynnol bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a reoleiddir ac athrawon yng Nghymru a Lloegr yn rhoi gwybod i'r heddlu am achosion hysbys o FGM ymysg rhai dan 18 mlwydd oed.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau gweithdrefnol ar y ddyletswydd hon sy'n egluro'r ddyletswydd orfodol newydd i adrodd am FGM i weithwyr proffesiynol perthnasol a'r heddlu.

Rheoli effaith "Gofyn a Gweithredu" ar y gweithlu

Gwersi a ddysgwyd o'r safleoedd mabwysiadu cynnar

Ar un safle mabwysiadu cynnar, roedd 17% o'r rheini a hyfforddwyd i "Ofyn a Gweithredu" hefyd wedi datgelu profiad o un o'r mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cydnabod bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fater sy'n effeithio ar y gweithlu

Mae'n bwysig bod timau arwain a rheoli yn cydnabod bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fater sy'n effeithio ar y gweithlu yn ogystal â'r grŵp cleientiaid.

Mae'r profiad o gam-drin yn effeithio ar bob rhan o fywyd y dioddefwyr, gan gynnwys eu swydd. I rai ohonynt, bydd y gweithle'n noddfa; i eraill, bydd yn rhoi ffwrdd ychwanegol i'r camdriniwr eu cam-drin a'u gormesu.

Mae 75% o fenywod sy'n profi cam-drin a thrais domestig yn cael eu targedu yn y gwaith – drwy aflonyddu arnynt dros y ffôn, drwy ymweliadau dirybudd â'r swyddfa gan bartneriaid camdriniol, a thrwy ymosodiadau corfforol, ymysg pethau eraill. Bob blwyddyn yn y DU, mae 20% o fenywod cyflogedig yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith o ganlyniad i drais domestig ac mae 2% yn colli eu gwaith o ganlyniad uniongyrchol i gam-drin. Mae 53% o weithwyr sy'n cael eu cam-drin (yn ddynion a menywod) yn colli o leiaf 3 diwrnod o waith bob mis¹³.

Yng Nghymru a Lloegr, mae cam-drin domestig yn costio £1.9 biliwn y flwyddyn drwy golli cynnyrch economaidd. Mae hyn yn ganlyniad i gynhyrchiant llai, anawsterau gweinyddol sy'n codi o gymryd amser i ffwrdd heb ei gynllunio, colli cyflog a thâl salwch.

Mae'n bosibl y bydd y profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar gynhyrchiant y dioddefwr a'i iechyd emosiynol a chorfforol. Gall hefyd wynebu mwy o risg o drais yn y gweithle. Gall yr unigolyn:

- fod yn hwyr yn y gwaith yn aml o ganlyniad i reolaeth drwy orfodaeth gan y partner camdriniol: gallai'r partner guddio ei hallwedd, ei gwisg swyddogol, ei phwrs;
- cymryd mwy o ddiwrnodau i ffwrdd am ei fod yn sâl;
- cael galwadau / negeseuon testun neu e-bost gan ei bartner drwy'r amser;
- gorfod brysio o'r gweithle ar ddiwedd y dydd;
- bod yn bryderus ynghylch gadael y gwaith, heb ddymuno mynd adref neu'n poeni am ei ddiogelwch.

Mwy o ddatgeliadau

Drwy hybu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymysg pawb yn y gweithlu, byddwch yn codi proffil y materion hyn, gan ddileu rhywfaint o'r stigma a'r ymgais i gelu cam-drin, ac yn cydnabod bod eich sefydliad yn derbyn bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion sy'n gallu effeithio ar staff. Drwy roi "Gofyn a Gweithredu" ar waith, byddwch yn hybu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan fod y broses hon yn cynnwys y camau i adnabod y problemau hyn ym mhwrpas craidd eich sefydliad. Wrth roi "Gofyn a Gweithredu" ar waith, mae'n bosibl y byddwch yn gweld eich bod yn cael mwy o ddatgeliadau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan aelodau o'ch gweithlu, yn enwedig gan y rheini sydd wedi'u hyfforddi i "Ofyn a Gweithredu".

Mae'n bwysig bod eich sefydliad yn barod i ymateb i'r datgeliadau hyn a chynnig cymorth gwell i'r staff hyn. Wrth wneud hynny, gallwch wneud y gweithle'n lle mwy diogel i ddioddefwyr a'u cymell i wneud datgeliad yn gynharach, i siarad yn agored am eu profiadau a chael gfael ar gymorth yn fwy effeithlon. Y fantais i'ch sefydliad o wneud hyn yw y byddwch yn cadw gweithwyr gwerthfawr, medrus a brwdfrydig a gall

hyn arwain at berfformiad ac ymroddiad gwell, a llai o gostau o ganlyniad i drosiant staff, absenoldeb ac anghenion hyfforddi.

Ystyriwch y canlynol wrth baratoi'ch sefydliad ar gyfer mwy o ddatgeliadau:

Polisi gweithle ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae polisi gweithle effeithiol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu sicrhau eich bod chi, fel cyflogwr, yn cydymffurfio â chyfreithiau perthnasol ar iechyd a diogelwch a'ch bod yn barod i gymryd camau effeithiol i helpu aelodau staff sy'n profi cam-drin neu drais o'r fath.

Yn 2013 datblygwyd canllawiau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ddatblygu polisi gweithle effeithiol ac mae'r rhain yn amlinellu ystyriaethau a chamau gweithredu allweddol.

Wedi i chi fabwysiadu polisi gweithle, rhowch wybod ei fod ar gael drwy ei hysbysebu ar bosteri, mewn taflenni neu ar wefan eich sefydliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adnoddau i'w lawrlwytho i'r diben hwn.

Defnyddio gwasanaethau arbenigol lleol a chenedlaethol

Mae sefydliadau arbenigol sy'n gallu'ch helpu chi i helpu'ch gweithwyr. Gallwch alw Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar **0808 80 10 800** i gael cyngor a chymorth neu gallwch gael y manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau lleol yng nghyfeiriadur gwasanaethau Byw Heb Ofn.

Darparu hyfforddiant priodol i staff

Mae'n bwysig bod awdurdodau perthnasol yn deall ac yn adnabod arwyddion a symptomau cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod ac yn gallu bod yn hyderus wrth atgyfeirio pobl i wasanaethau cymorth priodol, os bydd aelod staff yn datgelu profiad o gam-drin.

Mae E-ddysgu Llywodraeth Cymru (grŵp 1 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol) yn darparu gwybodaeth syml am y materion hyn a dylai staff ym mhob awdurdod perthnasol gael eu hyfforddi at y safon hon. Gallech hefyd ystyried cynnwys cyfran o'r rheolwyr a staff adnoddau dynol yn eich cynlluniau hyfforddi ar gyfer grwpiau 2 a 3 er mwyn sicrhau bod gwybodaeth well ar gael yn fewnol.

Dylid trefnu bod gweithgareddau hybu ymwybyddiaeth ac addysg gysylltiedig â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gael i'r holl staff. Dylai hyn gynnwys cyfeiriadau at wasanaethau mewnol neu allanol sy'n gallu eu helpu fel dioddefwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i helpu rheolwyr llinell mewn perthynas â grŵp 1 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, a all fod o gymorth iddynt hefyd i roi "Gofyn a Gweithredu" ar waith.

Trawma Dirprwyol

Mae wedi'i gydnabod bod gweithio gyda phobl sydd wedi profi trawma, hyd yn oed yn achlysurol, yn gallu effeithio ar y rheini sy'n cyflawni rôl yr "helpwr". Enw cyffredin ar yr effaith hon yw Trawma Dirprwyol.¹⁴

Trawma Dirprwyol yw'r gofid y mae'r rheini mewn rôl helpu neu gefnogi yn gallu ei deimlo o ganlyniad i straen emosiynol yn y gwaith; lle caiff "hunan" y gweithiwr neu'r helpwr trawma ei drawsnewid.¹⁵ Elfen ganolog yn y profiad yw'r berthynas empathig rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r cleient. Yn raddol dros amser, mae empathi'r gweithiwr proffesiynol â phrofiad y person arall yn gallu pylu terfynau emosiynol ac arwain at newid ym mhersbectif gwybyddol y gweithiwr proffesiynol a'i system gredoau.¹⁶ Gall hyn beri iddo deimlo:

- ei fod wedi ymlâdd a bod y sefyllfa'n ei lethu;
- ar wahân ac wedi'i ddieithrio;
- yn besimistaidd a negyddol;
- yn ddig ac yn drist;
- ei fod yn ymwneud gormod â'r cleient;
- amheuaeth amdano'i hun a phryderon am gymhwysedd ac euogrwydd;
- yn orwiliadwrus – yn rhy effro i fygythiadau.

Gall y teimladau hyn barhau am gyfnod ac mae tuedd iddynt fodoli'n gyfochrog â theimladau'r trawma uniongyrchol.

Mae rhywfaint o brofiad o Drawma Dirprwyol yn anochel o ganlyniad i weithio gyda rhai sydd wedi'u cam-drin, er na fydd y symptomau yr un fath bob amser.¹⁷ Nodwyd nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at ddatblygu Trawma Dirprwyol:

Sefydliadol	Personol
Diffyg adnoddau, amser, staff a gorweithio	Diffyg profiad/mewn swydd is
Diffyg cefnogaeth yn y gweithle (gan gydweithwyr, goruchwylwyr)	Hanes personol o drawma Straen personol ar y pryd
Teimlo'ch bod ar wahân fel gweithiwr proffesiynol	Disgwyl gormod o'r rôl ac o'r gallu i 'wneud daioni'
Gwahanol ethos gan asiantaethau/gwrthdaro diwylliant	

Bydd nifer mawr o weithwyr y gwasanaeth cyhoeddus eisoes mewn rolau sy'n eu gwneud yn fwy agored i brofi Trawma Dirprwyol (Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddogion Heddlu etc.) ac mae gan awdurdodau perthnasol gyfrifoldeb i leihau effaith y gwaith anodd hwn ar weithwyr proffesiynol.

Mae'n debygol, o ganlyniad i roi'r broses "Gofyn a Gweithredu" ar waith, y bydd mwy o'r rheini yn yr awdurdodau perthnasol yn gweithio gyda chleientiaid sydd wedi datgelu profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Nid oes disgwyl y bydd y rheini sy'n "Gofyn a Gweithredu" yn eu rolau yn datblygu rôl waith arbenigol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Er hynny, mae'n anorfod y bydd datgelu profiad o gam-drin yn cael effaith ar y berthynas waith ac felly ar y gweithiwr proffesiynol. Felly, fel awdurdod perthnasol, dylech sicrhau (os nad ydych wedi mabwysiadu arferion o'r fath eisoes) fod nifer o ffactorau lliniaru yn bresennol i gyfyngu effaith Trawma Dirprwyol ar staff.

Dylai arweinwyr:

- gydnabod Trawma Dirprwyol a'i gwneud yn glir nad yw'r profiad yn arwydd o ymarfer proffesiynol gwael;
- sicrhau bod staff llai profiadol yn cael mwy o gymorth;
- ffurfioli trefniadau cyfeillio/rhwyd ddiogelwch;
- sicrhau bod cyfarfodydd tîm yn mynd i'r afael â chanlyniadau emosiynol y gwaith ac yn treulio amser yn adolygu achosion/prosesau anodd iawn;
- ystyried darparu goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff;
- cymell staff i ofalu'n dda amdanynt eu hunain a chynnal rhwydweithiau proffesiynol;
- annog staff i hunanasesu eu lefelau straen yn rhan o'r broses rheoli achosion¹⁸

Dylai gweithwyr:

- gydnabod gofid, ei weld yn rhywbeth normal, ac ystyried gofyn am gymorth ychwanegol os yw'n parhau;
- adolygu strategaethau ymdopi/gofyn am gymorth/cael goruchwyliaeth;
- adolygu eu llwyth gwaith;
- cymryd seibiant a defnyddio eu gwyliau;
- sicrhau bod ganddynt amser i ymlacio, cysgu a chymdeithasu¹⁹.

Bydd y rhan fwyaf o staff sy'n profi Trawma Dirprwyol yn profi ffactorau sy'n anghyfforddus ond yn bosibl eu rheoli ac a fydd fel arfer yn eu datrys eu hunain dros amser.

Os bydd y gweithle'n cymryd camau i gydnabod bod y gwaith yn gallu achosi gofid ac yn darparu ar gyfer y rheini sy'n ei gael yn fwy gofidus, gall hynny greu mwy o ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o brofi gofid ac arwain at roi strategaethau ymdopi ar waith i wneud staff yn fwy cydnerth.

Nid yw trawma dirprwyol yn ben y daith nac yn brofiad negyddol anochel ac ni ddylid ei ddisgrifio felly yn y gweithle. Er y dylid cydnabod yr effaith bosibl o weithio gyda phobl sy'n ofidus, wedi'u cam-drin ac agored i niwed, lle mae hyn yn cael ei reoli'n dda, gyda chymorth effeithiol i staff, gall Trawma Dirprwyol arwain at Drawsnewid Dirprwyol; proses o drawsnewid trawma dirprwyol yn ddatblygiad proffesiynol. Mae trawsnewid dirprwyol yn broses o fynd i'r afael â'r newidiadau negyddol sy'n digwydd drwy waith trawma, a gall ddyfnhau'r ymrwymiad i'r gwaith ac i grwpiau cleientiaid sy'n agored i niwed.²⁰

Diffiniadau

Achredu: I ddibenion y canllawiau hyn, mae'r term "achredu" yn golygu awdurdodi neu gymeradwyo cwrs hyfforddi sy'n cael ei ddarparu gan gorff swyddogol ar ôl bodloni safonau cydnabyddedig.

Aflonyddu: Ffordd o ymddwyn gan berson sy'n gwybod neu a ddylai wybod ei bod yn golygu aflonyddu ar y person arall; ac i ddibenion y diffiniad hwn:
(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu neu'n ei gynnwys os byddai person rhesymol sydd â'r un wybodaeth yn meddwl bod y ffordd o ymddwyn yn gyfystyr ag aflonyddu neu'n cynnwys aflonyddu ar berson arall,
(b) mae "ymddygiad" yn cynnwys lleferydd.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM): Gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (c. 31).

Awdurdodau perthnasol: Cyngorau sir a bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau GIG.

Awdurdod Lleol: Cyngor sir neu fwrdeistref sirol.

Cam-drin: Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

Cam-drin domestig: Cam-drin lle mae'r un sy'n ei ddiodef yn gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r camdriniwr.

Mae person yn gysylltiedig â pherson arall i ddibenion y diffiniad o "gam-drin domestig" os yw'n dod o fewn y diffiniad yn adran 21(2) neu (3) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Camfanteisio rhywiol: Rhywbeth sy'n cael ei wneud i berson neu mewn cysylltiad ag ef sydd (a) yn golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (c. 42), fel y mae'n cael ei gweithredu yng Nghymru a Lloegr, neu (b) a fyddai'n golygu cyflawni trosedd o'r fath pe byddai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

Cleient: Mae "cleient" yn derm sy'n cael ei ddefnyddio yma i ddisgrifio person sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term yn cwmpasu'r termau "dioddefwr", "goroeswr", "defnyddiwr gwasanaethau" a "claf". Mae gwahanol bartneriaid yn arfer geiriau gwahanol i ddiffinio eu perthynas â'r person sydd mewn perygl ac felly mae'r canllawiau yn adlewyrchu hyn.

Wrth ymarfer, rydym yn awgrymu bod y person sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dewis y term sydd orau ganddo, pan fo angen defnyddio term. Fel arfer, dylai fod yn bosibl defnyddio enw'r cleient yn hytrach na thermau eraill i'w ddisgrifio.

Cyngorwr Annibynnol ar Drais Domestig: Gweithiwr arbenigol hyfforddedig sy'n darparu cymorth tymor byr a chanolig mewn gwaith achosion ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n wynebu risg uchel.

Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol: Gweithiwr arbenigol hyfforddedig sy'n darparu cymorth tymor byr a chanolog mewn gwaith achosion ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol.

“Gofyn a Gweithredu”: Proses o holi wedi'i dargedu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a phroses o holi cyffredinol mewn gwasanaethau mamolaeth a bydwreigiaeth, a lleoliadau iechyd meddwl a cham-drin plant.

Gwasanaeth cyhoeddus: Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wasanaethau sy'n cael eu darparu er budd y cyhoedd. Gall hyn gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy'r trydydd sector, drwy fenter gymdeithasol neu drwy wasanaethau sydd wedi'u gosod ar gontract allanol.

Yng nghyd-destun y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (sydd â “Gofyn a Gweithredu” yn elfen ynddo), mae'r gwasanaeth cyhoeddus wedi'i ddiffinio ar sail asesiad o'r hyn yw 'gweithwyr y sector cyhoeddus datganoledig' yng Nghymru – mae hwn yn cynnwys y gwasanaeth sifil datganoledig, awdurdodau lleol, iechyd, awdurdodau addysg a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Er nad yw Awdurdodau Heddlu wedi'u datganoli, maent wedi'u cynnwys am eu bod yn cael eu hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Nid yw 'gweithwyr y sector cyhoeddus datganoledig' gan gynnwys gweision sifil sydd heb eu datganoli (fel y rheini sy'n gweithio i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r DVLA), personél milwrol a phobl sydd wedi'u cyflogi gan Gorfforaethau Cyhoeddus (fel S4C a Bws Caerdydd etc) yng Nghymru.

Rhanbarth: Disgwylir i awdurdodau lleol weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos ac ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol er mwyn rhannu'r Grant Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (o fis Mawrth 2018). Bydd awdurdodau lleol yn rhydd i alinio fel y maent yn gweld orau i'r diben hwn. I ddibenion y canllawiau hyn, mae'r bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill a Byrddau Iechyd Lleol yn cael ei galw'n rhanbarth. Bydd y cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar gyfer “Gofyn a Gweithredu” yn cael ei ddarparu o fewn y rhanbarth hwn.

“Trais ar sail Rhywedd”

- (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
- (b) anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM);
- (c) gorfodi person (boed drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ffyrdd seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodasol grefyddol neu sifil (pa un a yw'n gyfreithiol rwymol neu beidio);

Trais Rhywiol: Camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rywiol.

Trais yn erbyn menywod: Profi trais ar sail rhywedd gan fenywod.

Y Ddeddf: Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Ymarferydd: Gweithiwr proffesiynol sy'n cael ei gyflogi i weithio'n uniongyrchol gyda grŵp cleientiaid y mae cyfran ohonynt yn debygol o brofi math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol, sy'n cael cyfle drwy ei rôl a'i berthynas â'r cleient i "Ofyn a Gweithredu".

Cyfeiriadau

¹ Responding to Intimate partner violence and sexual violence against women. World Health Organisation clinical and policy guidelines (2013)

² Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively. NICE public health guidance 50 (Chwefror 2014)

³ Robinson (2012) Task & Finish Group report, t. 46 a 47

⁴ Thomas ac Allen (2012) Evaluation of the Gwent Domestic Abuse Conference Call.

⁵ <https://mappa.justice.gov.uk/connect.ti/MAPPA/view?objectId=5681072&exp=e1>

⁶ Regan, Kelly, Morris a Dibb, (2007) If Only We'd Known: An exploration study of 7 intimate partner homicides in Engleshire. CWASU

⁷ Murray J (2010) Clinical judgment in violence risk assessment. EJP

⁸ Downes, C et al (2013) Abuse of Older People with Dementia: A review. NCPOP, University College Dublin.

⁹ Hague G, Thiara R, Magowan P, Mullender A. Making the Links: Disabled Women and Domestic Violence. Women's Aid: 2008.

¹⁰ Roedd 1,353 o bobl ifanc, a oedd rhwng 13 a 17 mlwydd oed, o Gymru, Lloegr a'r Alban wedi cymryd rhan yn yr arolwg ymchwil hwn ac roedd 91 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau manwl

¹¹ Barter C (2009) Partner exploitation and violence in teenage intimate relationships

¹² Ibid a CAADA (2014) In Plain Sight: Effective help for children exposed to domestic abuse.

¹³ Walby ac Allen (2004) Domestic Violence, Sexual Assault and Stalking: findings from the British Crime Survey. Y Swyddfa Gartref

¹⁴ Robertson N "Evidence is your raw material": the potential impact of undertaking DHRs". Presentation to Local Government Association May 2013

¹⁵ Pearlman (1990) Vicarious Trauma. A framework for understanding. Journal of Traumatic Stress.

¹⁶ The Headington Institute:

<http://www.headington-institute.org/topic-areas/125/trauma-and-critical-incidents/246/vicarious-trauma>

¹⁷ ibid

¹⁸ Robertson N "Evidence is your raw material": the potential impact of undertaking DHRs". Presentation to Local Government Association May 2013

¹⁹ Ibid

²⁰ The Headington Institute: <http://www.headington-institute.org/topic-areas/125/trauma-and-critical-incidents/246/vicarious-trauma>